
# Y DINESYDD

Mehefin 2021 | Papur Pobl Caerdydd a'r Fro | Rhif 459 | £1.20

Llun:
Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

## Pen blwydd Hapus Gwynedd Pierce yn 100 oed!

tud. 6-7





## Luned González: Mam Patagonia

tud.3

## Teyrnged i'r Parchedig W.I. Cynwil Williams

tud. 18

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Hefin Mathias**

***Golygydd Gorffennaf/Awst***
***Wyn Mears***

Cyfraniadau erbyn 27 Mehefin i:
wyn@wynmears.com
13 Mayfair Drive, Thornhill,
Caerdydd, CF14 9EN
029 2075 8726 / 07837991189

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd





Mae Cyngor Caerdydd wedi sefydlu tîm o'r enw Addewid Caerdydd i lunio rhaglen i lywio adferiad Caerdydd ar ôl y pandemig. Bydd un rhan o'r rhaglen yn canolbwyntio ar **Yr Hyn Sy'n Dda i Blant,** ac maen nhw'n awyddus i glywed wrth unrhyw sefydliad a allai gyfrannu at y prosiect pwysig hwn.

Wrth gyflwyno'r rhaglen, dyma a ddwedodd Ffion Gruffudd, Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog.

Fel rhan o'r rhaglen gyflawni, rydym am glywed gan bobl ledled y ddinas a all helpu cenhedlaeth o bobl ifanc a'r rhai sy'n gadael ysgol; maen nhw wedi byw drwy flwyddyn ddigynsail a dod allan yr ochr arall.

Rydym yn cydnabod y bydd eu profiadau'n unigryw a dylid dathlu eu dewrder a'u gwydnwch.

Mae Cyngor Caerdydd am glywed gan y rhai a fydd yn eu cyflogi yn y dyfodol ac sy'n rhannu'r farn y bydd gan y bobl ifanc hyn set unigryw o rinweddau, cryfderau a phrofiadau i'w cynnig.

Bydd y flwyddyn ddiwethaf wedi eu dysgu i fod yn greadigol ac yn hyblyg ac wedi annog hunan-gymhelliant a'r gallu i weithio ar eu liwt eu hunain. Byddant yn gallu gweithredu mewn byd digidol yn well a byddant yn fwy gofalgar, tosturiol a chydymdeimladol o'u cymunedau.

Os gallwch roi ardystiad cadarnhaol i helpu i greu ymdeimlad o optimistiaeth, gan annog y genhedlaeth hon i fod yn uchelgeisiol a chyffrous am y dyfodol a'r cyfleoedd gwych sydd ar gael iddynt yn ein dinas wych, rydym am glywed gennych!

Anfonwch eich cyfraniadau at AddewidCaerdydd@caerdydd.gov.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw,

Ffion

[Bydd y Dinesydd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect pwysig hwn wrth iddo ddatblygu.]

---

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CANT A MIL,** 100 Whitchurch Rd.
**CHAPTER**, Treganna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd,, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, 37 Arcêd y Castell
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd

# Colofn G.R.

*“Gobeithio eich bod am drefnu eich gwyliau haf yma yng Nghymru eleni .”*



Helo bawb! Wel mae holl hw-ha yr Etholiad drosodd am bum mlynedd arall ac ymddengys bod y bobl a etholwyd y tro hwn yn bobl gall a brwdfrydig ac felly gobeithio bydd eu hymdrechion ym Mae Caerdydd yn dwyn ffrwyth a bydd Cymru yn lle gwell i fyw ynddi erbyn yr Etholiad nesa!

Troais i’n dipyn o anorac gwleidyddol mae’n rhaid i mi gyfaddef gan i mi dreulio oriau yn gwrando ar ganlyniadau’r Etholiad ar Radio Cymru a gwylio’r canlyniadau ar S4C a rhaid canmol gwaith Vaughan Roderick a Dewi Llwyd ar Radio Cymru a Richard Wyn Jones, Bethan Rhys Roberts a Betsan Powys ar S4C am gynnal ein diddordeb dros yr oriau maith! Diddorol nodi bod yr SNP yn ben yn yr Alban, y Toriaid yn ben yn Lloegr a Llafur yn ben yng Nghymru.

Byddaf wastad yn ansicr pryd bydd y gwanwyn yn troi’n haf ac eleni mae’r broblem yn waeth gan i ni brofi cyfnodau o dywydd symol ym misoedd Ebrill a Mai ond am gyfnod byr pan gododd y tymheredd i 21 gradd mewn llefydd fel Porthmadog. Bydd hi’n ddiwrnod hwya’r flwyddyn ar yr 21 o’r mis hwn ac felly gobeithio bydd y tywydd wedi troi’n hafaidd erbyn hynny! Dan ni’n haeddu tywydd braf ar ôl profi cymaint o rwystredigaeth oherwydd dylanwad y firws felltith ar ein bywydau!

Peidied neb â beirniadu ein gwasanaeth Post yng Nghymru gan yn ddiweddar derbyniais i lythyr o Borth Madryn (lle glaniodd y Cymry nôl yn 1885) ym Mhatagonia a bostiwyd ar yr 21 o Ragfyr a daeth i law ar yr 21 o Ebrill! – o leia mi gyrhaeddodd! Hwn odd y llythyr cyntaf i mi dderbyn o’r Wladfa ers dros flwyddyn oherwydd bod y wlad dan glo fel ninnau oherwydd y firws.

Nôl yn 1949 sefydlwyd Ysgol Gymraeg Bryntaf yn y ddinas a thros y blynyddoedd tyfodd yr ysgol nes odd 700 o ddisgyblion ynddi. Buodd raid i’r Gymdeithas Rieni bwyso ar yr Awdurdod i agor mwy o ysgolion Cymraeg i gwrdd â’r gofyn. O’r diwedd ymatebodd yr Awdurdod ac agor tair Ysgol Gymraeg yn lle’r un! Heddiw, mae bron ugain o ysgolion Cymraeg yn y ddinas ond yn anffodus mae rhai o’r ysgolion hyn yn llawn a nifer o ddarpar ddisgyblion yn cael eu gwrthod. Mae’r broblem hon wedi codi ei phen yn nhre Pen y Bont ar Ogwr yn ddiweddar gan fod yr unig ysgol Gymraeg yn y dre yn llawn a nifer o ddarpar ddisgyblion heb le yn yr ysgol. Felly, bydd rhaid ymgyrchu siwr o fod i geisio cael yr Awdurdod Addysg yno i agor yr ail ysgol Gymraeg yn y dre.

Eleni, mae hi’n hanner cant o flynyddoedd ers i’r bardd Waldo Williams farw, a threfnwyd nifer o ddigwyddiadau i gofio am y bardd arbennig hwn. Flynyddoedd lawer yn ôl cofiaf glywed merch dywyll ei gwedd o’r enw Hope Hanlon, odd yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Lady Margaret (Howardian erbyn hyn), yn adrodd cerdd enwog y bardd sef “Cofio” mewn eisteddfod yr Urdd a chafodd yr un gwrandawiad a’r adwaith â Heather Jones yn canu “Colli Iaith”.

Gan mai un Sianel Gymraeg sy gennym ni mae hi’n anodd plesio pawb bob tro ond mae’r cyfresi “Cynefin” a “Mynd am dro” wedi bod yn ddigon derbyniol a dan ni wedi dod i nabod ein gwlad yn well o ganlyniad i’r rhaglenni hyn. Yn ddiweddar daeth y gyfres “Cymru, Dad a Fi” i ben, sef teithiau tad a mab o ardal Llanrhymni o gwmpas nifer o ynysoedd oddi ar arfordir Cymru. Daeth tad Wayne Howard i fyw yng Nghaerdydd o Jamaica a buodd Connagh, mab Wayne yn ddisgybl yn Ysgol Glantaf a buodd yn cymryd rhan yn y gyfres “Love Island” ar y teledu. Odd hi’n amlwg bod perthynas agos rhwng y tad a’r mab ac odd y ddau yn llithrig eu parabl ac yn ddigon cartrefol yn y gwahanol leoliadau.

Mae sêr ein gwlad yn y byd chwaraeon yn y newyddion eto hefo Geraint Thomas yn ennill râs y *Tour de Romandie*, Alun Wyn Jones yn cael ei enwi yn gapten tîm rygbi’r Llewod hefo naw o’i gyd Gymry fydd yn chwarae yn Ne Affrig yn yr haf, Gareth Bale yn sgorio *hat trick* yn erbyn tîm Sheffield United a thîm pêl -droed Cymru yn chwarae yn yr Euros cyn bo hir. Ymlaen bo’r nôd iddyn nhw i gyd!

Dyma gau pen y mwdwl am fis arall gan obeithio – er gwaethaf y tywydd anwadal – eich bod am drefnu eich gwyliau haf yma yng Nghymru eleni yn lle mynd i grwydro’r byd a hwyrach dod â’r firws yn ôl hefo chi i’n plith! Byddwch ddoeth, a byddwch gall!

**Cadwch mewn cysylltiad â’r *Dinesydd* ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif @DinesyddCdydd, ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/Ydinesydd a’n gwefan www.dinesydd.cymru**

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

## Addysg Gymraeg y Wladfa, a Mam Patagonia

Trwy ryfeddod Zoom gallwn bellach sgwrsio gyda'n cyfeillion ym Mhatagonia.

Ym Mis Ebrill trafodwyd ysgolion Cymraeg y Wladfa gydag Ana Chiabranda o Ysgol yr Hendre Trelew, Esyllt Nest o Ysgol Gymraeg y Gaiman a Margarita Green o Ysgol y Cwm Trevelin. Y pryder mwyaf oedd fod y plant yn colli gafael ar eu Cymraeg, ac yn colli hyder wrth sgwrsio.

Mae mwyfwy o blant yn mynychu'r ysgolion Cymraeg a'r her yn y Gaiman yw dod o hyd i ddigon o le iddyn nhw. Byddant yn sgwrsio ar-lein gyda'r plant yn ystod y clo er mwyn ymarfer yr iaith. Erbyn hyn nid yw'r British Council yn talu am athrawon ym Mhatagonia, ac mae dod o hyd i athrawon cymwys yn her.

Mae Esyllt yn dysgu Cymraeg yng Ngholeg Camwy (Ysgol Uwchradd) hefyd, ac mae plant blynyddoedd 1, 2 a 3 fu eisioes mewn ysgolion Cymraeg yn cael cyfle i sefyll arholiadau CBAC.

Yn Ysgol y Cwm – ar draws y Paith mae bywyd yr un mor heriol. Er bod ganddynt adeilad newydd does dim offer adre gyda llawer o'r plant i dderbyn gwersi rhithiol. Dywedodd Margarita fod Eisteddfodau'r Wladfa yn ychwanegu at ddatblygiad ieithyddol a diwylliannol y plant. Yr her yw ariannu, a hyfforddi athrawon lleol.

Os mai Môn yw mam Cymru, yn sicr Luned González yw mam y Wladfa. Roedd hi'n fraint cael sgwrsio gyda hi ar Fai 19eg am hen gymeriadau'r Wladfa, a'i bywyd bob-dydd. Mae draig anferth ar sgwar y Gaiman, sawl sgwâr sy felly yng Nghymru gofynnodd.

Mae amryw o ddathliadau ym Mis Mai. Mae'r wythnos hon yn wythnos y Mêl yn Nyffryn Camwy. Ar Fai 25ain sef Dathliad y Chwydro bydd pawb yn bwyta *tortas fritas,* sef toes bara wedi'i ffrio. Mae'r brechlynnau'n brin yn yr Ariannin, dim ond un brechiad gafodd Luned hyd yma a hithau dros ei phedwar ugain. Ond mae na ddawnsio ar y stryd yn y Gaiman, er bod pawb yn eu mygydau!

Trysor o noson.



***Luned González***

---

## Cyfarfod Blynyddol y *Dinesydd*

Cynhelir hwn ar Zoom am 7.00 o'r gloch nos Iau, 17 Mehefin. Croeso i chi ymuno â ni. Cewch gyfle i glywed ychydig am hynt eich papur bro yn ystod blwyddyn ryfedd, a chyfle hefyd i fynegi barn ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chynnal y papur.

Ie, 'rhyfedd' yw'r gair i ddisgrifio'r flwyddyn 2020-2021 yn hanes y *Dinesydd* ond fe lwyddwyd i gyhoeddi rhifyn ym mhob un o'r deg mis arferol – a rhifyn ychwanegol ym mis Awst! Llwyddwyd i gynnal y safon o ran cynnwys a diwyg ac fe ddosbarthwyd copïau digidol, yn rhad ac am ddim, i bob cwr o'r wlad a thu hwnt. Cafwyd un ymateb o Efrog Newydd! Yn ogystal â hyn, dosbarthwyd copïau caled, eto yn rhad ac am ddim, i nifer o'n darllenwyr oedd heb yr adnoddau digidol. Cafwyd ymateb gwerthfawrogol iawn.

Roedd hyn i gyd yn bosibl oherwydd rhoddion hael gan nifer fawr o'n darllenwyr a rhai sefydliadau. Mae diolch mawr yn ddyledus hefyd i gyfranwyr yr erthyglau diddorol, i'r golygyddion am eu gwaith trylwyr ac i Eirian Dafydd, ein cysodydd, am ei gwaith hynod o grefftus.

**Ym mis Mehefin bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd presennol yn ymddeol o'u swyddi. Yn y Cyfarfod Blynyddol, felly, bydd angen ethol rhywun newydd i'r ddwy swydd.** Os oes diddordeb gennych chi i gymryd rhan yng ngwaith y *Dinesydd*, neu os gwyddoch am rywun y gallem ofyn iddyn nhw, yna byddem yn falch iawn o glywed oddi wrthoch chi. [Rhifau cyswllt ar dudalen 2 neu bryan.val.james@gmail.com / 07800 768059]

*Bryan James*
(Cadeirydd)

# Colofn Natur

## *Parc Tredelerch a Ffos Cors Crychydd*



**Gethin Jenkins-Jones**

Er nad yw'r tywydd wedi bod yn hynod o heulog y mis hwn, un peth braf i mi yn ddiweddar oedd ymweld unwaith eto ag ardal o Gaerdydd dwi ddim wedi bod iddi ers sbel fawr. Wythnos diwethaf fe es i i Barc Tredelerch a Ffos Cors Crychydd ger Llanrhymni. Mae 'na faes parcio cyfleus a rhad ac am ddim i'r ddau safle. Tan yn ddiweddar roedd y tir gyferbyn yn domen sbwriel enfawr, ac mae gennyf atgofion clir o aroglau annifyr yn dod ohono yn fy ffroenau. Bellach mae'r lle wedi ei orchuddio â phridd a phlanhigion felly, o'r diwedd, dwi'n teimlo'n gyfforddus mod i'n gallu awgrymu eich bod yn ymweld â'r ardal heb boeni am wrthwynebiad!

Gydag adar yn canu o bob cyfeiriad wrth gerdded rownd Parc Tredelerch, cefais syndod darganfod pa mor ifanc yw'r lle. Crëwyd y llyn ond ugain mlynedd yn ôl pan benderfynwyd peidio defnyddio'r lle fel safle gwastraff, a heddi mae yna gorff mawr o ddŵr wedi'i amgylchynu â chyrs a llwyni. Dim ond 1.3km yw'r llwybr sydd yn mynd o amgylch y llyn, felly nid yw'n wâc hir. Mae yna ddigon o adar yno i'w mwynhau trwy'r flwyddyn. Un sydd i'w glywed yno'n rheolaidd sy'n deffro fy synhwyrau bob tro yw'r Telor Cetti (a enwyd ar ôl sŵolegydd Eidalaidd o'r 18G, Francesco Cetti). Y rheswm am hyn yw ei fod mor hawdd i'w glywed ond bron yn amhosib i'w weld! Mae'r aderyn hwn yn hoff o welyau cyrs ac yn aml yn cuddio yn ddwfn ynddynt i floeddio ei gân fer swnllyd ymhobman. Dim ond ym 1972 y dechreuodd yr adar yma nythu ym Mhrydain wedi iddyn nhw ymledu o'r cyfandir. Erbyn heddiw maen nhw'n weddol gyffredin yn ne Cymru a Lloegr ond, er gwaethaf clywed dwsinau o'r teloriaid hyn ar hyd y blynyddoedd, dwi ond wedi gweld dau neu dri ohonynt yn dda. Mae'n beth da nad ydy pob aderyn yn ymddwyn yr un math!

Aderyn haws o lawer i'w weld yw Bras y Cyrs. Y gwanwyn yw'r cyfnod gorau i weld yr adar hyn gan fod gan y ceiliog ben smart du a phlu streipïog. Hefyd i'w gweld a'u clywed yn rheolaidd yn yr haf yw Teloriaid y Cyrs â'u caneuon mecanyddol, ryfedd. Mae'r adar hyn yn treulio'r gaeaf yn is-Sahara Affrica, ac wrth edrych arnynt dwi'n aml yn meddwl am yr holl wledydd bysant wedi gweld i gyrraedd yma. Mwy o wledydd na ma'r rhan fwyaf ohonom ni wedi ymweld â nhw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dwi'n siŵr! Bydd yr adar yma tan ddechrau mis Medi, felly mae 'na ddigon o amser eto i'w mwynhau.



*Parc Tredelerch*



*Ffos Cors Crychydd*

Mae Ffos Cors Crychydd yn wâc o oddeutu pum munud o Barc Tredelerch. Mae'r safle yn gymharol fach, â llwybr sengl sy'n eich cymryd i aber yr Afon Rhymni sy'n llifo mewn i'r Hafren. Ar y dde, yn dilyn y llwybr, mae ffos hir a llydan gyda chyrs ar hyd ei hochr, a thu ôl iddi mae'r hen domen sbwriel. Nid oes unrhyw dystiolaeth amlwg am hen ddefnydd y tir, fodd bynnag, roeddwn yn hapus clywed Ehedydd yn canu fry uwchben y glaswelltir sydd nawr yn tyfu arno. Fe wnes i hefyd weld Cudyll Coch - sydd yn bresennol mewn niferoedd llai yng Nghymru erbyn hyn - yn chwilio am lygod yn eu mysg. Mae gweld yr adar yma yn dystiolaeth gadarnhaol bod bywyd gwyllt yn medru dychwelyd yn gyflym i ardaloedd os rydym yn eu newid i barchu natur.

Gyda gwyrddni'r dail newydd a phlanhigion gwyn a melyn o fy amgylch, cefais lawer o fwynhad ymweld â Ffos Cors Crychydd. Ond mae yna bethau i'w mwynhau yno yn y gaeaf hefyd. Un o brif atyniadau'r lle yw'r Tylluanod Clustiog, sydd i'w gweld yn hela ar hyd y glaswelltir ar ymylon yr aber. Os oes gennych delesgôp, bydd hefyd modd gweld miloedd o rydwyr a hwyaid - a llawer wedi mudo dros gannoedd o filltiroedd o'r Arctig a Rwsia - yn bwydo ar y llaid. Mae aber yr Hafren yn holl bwysig i gymaint o adar yn ystod y gaeaf, ac mae'n rhoi cysur i mi fod y cynllun posib o adeiladu morglawdd drud a dadleuol ar hyd yr aber bellach wedi dod i ben. Mae'n debygol mai yn ne Cymru mae fy nyfodol dros y blynyddoedd nesaf, a dwi'n siŵr byddaf yn dychwelyd i fwynhau natur y llefydd yma eto ym mhob un o'r tymhorau.

# Gwynedd O. Pierce

## Dathlu'r arloeswr enwau lleoedd

***I nodi penblwydd 100 oed yr arbenigwr ar enwau lleoedd, Gwynedd O Pierce, mae Pennaeth Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd a chadeirydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, Dr Dylan Foster Evans, yn dathlu ei gyfraniad.***

Mae llawer o sôn am enwau lleoedd Cymru y dyddiau hyn. Ond i gynnal y trafodaethau hynny mewn ffordd ystyrlon mae'n rhaid wrth unigolion sydd wir yn deall hanes ac arwyddocâd yr enwau hynny. Ymhlith y pennaf o'r rhain y mae gŵr a fu’n dathlu ei ben-blwydd yn gan mlwydd oed ar 12 Mai eleni, sef yr Athro Emeritws Gwynedd O Pierce.

**Cymru 'ar ei hôl hi'**

Cafodd Gwynedd ei eni a'i fagu yng Nghaernarfon, yn fab i bensaer. Ar ddechrau ei yrfa academaidd bu ym Mangor yn ddisgybl i Syr Ifor Williams, un o'r ysgolheigion mwyaf erioed ym maes y Gymraeg.

Ym mis Mai 1945, cyhoeddodd Ifor Williams y gyfrol Enwau Lleoedd; bu'n rhaid ei hailargraffu o fewn tri mis. Dyna brawf digamsyniol i Gwynedd a phawb arall fod y Cymry'n awchu i wybod mwy am y maes tra phwysig hwn.

Ond pan ddechreuodd Gwynedd ymddiddori mewn enwau lleoedd, roedd Cymru ar ei hôl hi, yn sicr o gymharu â'r sefyllfa yn Lloegr. Yno yn 1923 y sefydlwyd yr English Place-Name Society (EPNS) gyda'r nod o gyhoeddi astudiaethau manwl, fesul sir, o enwau lleoedd Lloegr. Ymddangosodd y gyfrol gyntaf - ar Buckinghamshire - yn 1925 a daeth deunaw cyfrol arall o'r wasg cyn diwedd yr Ail Ryfel Byd.

Ond nid oedd dim tebyg i'r EPNS i'w gael yng Nghymru.

Mae'n wir, er hynny, fod nifer o arbenigwyr wedi bod yn weithgar yn y maes: Ifor Williams ei hun, John Lloyd -Jones, R. J. Thomas, a Melville Richards, i enwi dim ond rhai. Fe gyflawnodd y rhain waith mawr heb lawer o gefnogaeth sefydliadol. Ond roedd y diffyg astudiaethau manwl fesul ardal yn parhau i fod yn fwlch amlwg.

Roedd angen rhywun i fwrw ati a llunio'r astudiaeth gyntaf o'r fath. Gwynedd oedd y gŵr a wnaeth hynny.

**Enwau lleoedd Morgannwg**

Ni fu'r llwybr yn un rhwydd iddo - bu'n rhaid iddo dreulio cyfnod o dair blynedd yn y Dwyrain Pell yn ystod y rhyfel cyn gallu ailafael yn ei astudiaethau. Symudodd i Gaerdydd a dechrau ymddiddori yn enwau Morgannwg dan adain yr Athro G. J. Williams. Fe'i penodwyd i ddarlithio yn y Gymraeg a Hanes Cymru a dechreuodd gyhoeddi ei ymchwil ar enwau lleoedd yn ystod y 1950au.

Hogodd ei sgiliau ieithyddol a dechrau cofnodi ffurfiau hanesyddol cannoedd o enwau o ardal Dinas Powys, gan gynnwys casglu tystiolaeth lafar gan rai o siaradwyr olaf y dafodiaith Gymraeg leol.

Ymddangosodd y gyfrol gampus *The Place-Names of Dinas Powys Hundred* yn 1968. Hon oedd y gyfrol gyntaf yng Nghymru i fabwysiadu dull manwl yr EPNS. Ac yn achos enwau ardal Dinas Powys (ar gyrion Bro Morgannwg a thafliad carreg o Gaerdydd), roedd y cymysgedd o ieithoedd yn her arbennig. Bu'n rhaid i Gwynedd ymgodymu â Hen Gymraeg, Eingl-Sacsoneg, Norseg, Lladin, a Ffrangeg, heb sôn am Gymraeg a Saesneg cyfoes, er mwyn datgelu cyfoeth enwau'r fro.

Hawdd iawn yw ymgolli yn y cannoedd o enwau sy'n cael sylw yn y gyfrol hon. Ond edrychwn ar ddwy enghraifft arbennig o ddifyr. Dyna ichi **Lecwydd** ar gyrion Caerdydd. Dangosodd Gwynedd nad oes a wnelo'r enw ddim oll â llechwedd, fel y credai llawer. Yn hytrach, mae'n tarddu o Helycwydd neu Helecwydd, enw personol, yn ôl pob tebyg, a luniwyd o'r elfennau helyg a gwŷdd ('coed').

Mae'r esboniad ar **Highlight** ger y Barri yn un arall cofiadwy. Yn Gymraeg, enw'r fan oedd Uchelolau, a'r olau yn golygu 'llwybrau' (hynny yw, mwy nag un ôl). Ond addaswyd yr enw i'r Saesneg gan dybio mai (g) olau oedd yr elfen - a dyna ichi'r Highlight sy'n gyfarwydd heddiw!

Mae Gwynedd yn ysbrydoliaeth ddigyffelyb i bawb sydd wedi mentro i'r maes astrus ond hanfodol hwn."

**Cynulleidfa eang**


Mae eglurder yr esbonio yn nodweddiadol o Gwynedd, ac felly hefyd ei awydd i rannu ei wybodaeth â chynulleidfa eang. Mae ei gyfrol *Place-Names in Glamorgan* (2002) yn gyflwyniad darllenadwy a hygyrch i rai o enwau'r sir honno ac yn apelio at y darllenydd cyffredin a'r arbenigwr fel ei gilydd.

Bu Gwynedd hefyd yn trafod enwau lleoedd yn y *Western Mail*, yn y *Dinesydd* (papur bro Caerdydd), ac yn *Y Gadwyn* (cylchgrawn ei gapel yng Nghaerdydd, sef Eglwys y Crwys), yn ogystal â chyfrannu at lyfrau poblogaidd ond safonol megis y ddwy gyfrol *Ar Draws Gwlad.*

Am flynyddoedd maith, bu Gwynedd yn cynghori'r Llywodraeth am enwau lleoedd a sut i'w safoni. Bu hefyd yn llywydd y Society for Name Studies in Britain and Ireland - arwydd o'r parch mawr iddo y tu hwnt i Gymru.

Yn 2011, sefydlwyd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, a'r flwyddyn ganlynol fe anrhydeddwyd Gwynedd drwy ei wahodd i fod yn Llywydd er Anrhydedd cyntaf y gymdeithas honno.

Ac yn ystod yr haf eleni bydd y gyfrol gyntaf i'w



*Llun: Gwynedd Pierce*

chyhoeddi gan y gymdeithas, sef *Ar Drywydd Enwau Lleoedd*, yn ymddangos er mwyn anrhydeddu Gwynedd ar achlysur ei ben-blwydd yn gant.

Er iddo gael gyrfa academaidd hynod brysur - roedd yn Athro Hanes Cymru pan ymddeolodd - mae Gwynedd wedi llwyddo i ddilyn diddordebau eraill hefyd. Bu'n ddarlledwr penigamp ar y radio, gan adrodd ar bêl-droed mewn cyfnod arloesol o ran darlledu am chwaraeon yn y Gymraeg. Mae pawb sy'n ei adnabod hefyd yn gwybod ei fod yn golffiwr o fri - dim ond y llynedd y penderfynodd ymddeol o'r gamp honno!

Hyfryd felly yw cael y cyfle i gyfarch Gwynedd ar ei ben-blwydd yn gant. Mae llawer mwy o waith yn aros i'w wneud ar enwau lleoedd, ond mae Gwynedd yn ysbrydoliaeth ddigyffelyb i bawb sydd wedi mentro i'r maes astrus ond hanfodol hwn.

Pen-blwydd hapus iawn ichi, Gwynedd!

**Hefyd o ddiddordeb:**

Gwynedd O Pierce - gwestai pen-blwydd ar raglen Dewi Llwyd ar Fore Sul, 9 Mai ar BBC Radio Cymru

'Enwau Cymraeg llefydd mewn perygl o ddiflannu'

Y Gymraeg yng Nghaerdydd

# Wythnos Ymwybyddiaeth Fyd-eang Haemochromatosis

Mehefin 1-7fed, 2021

**Y Clefyd Celtaidd - Haemochromatosis**

**Beth yw Haemochromatosis?**

Mae Haemochromatosis Genetig yn gyflwr ble mae lefelau'r haearn yn y corff yn cynyddu'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r cynnydd mewn haearn yn y gwaed yn gallu achosi rhai symptomau diflas. Os na cheir triniaeth i'r cyflwr, gall yr haearn achosi difrod peryglus i rannau o'r corff fel yr iau, y cymalau, y pancreas a'r galon. Yn aml, mae Haemochromatosis Genetig yn effeithio ar bobl o gefndir Gogledd Ewrop ac mae'n arbennig o gyffredin mewn gwledydd sydd â chefndir Celtaidd fel Cymru (1 o bob 150 person), Yr Alban ac Iwerddon (1 o bob 113 yn y ddwy wlad).

**Symptomau Haemochromatosis**

Yn arferol, mae symptomau Haemochromatosis Genetig yn dechrau dod i'r amlwg rhwng 30 a 60 mlwydd oed ar ôl amsugno gormod o haearn o'r diet ers geni'r person.

Y Symptomau mwyaf cyffredin yw:

- blinder, lludded neu wendid.
- poenau yn y cymalau yn arbennig yn y dwylo a'r bysedd.
- problemau gyda rhyw - colli awydd ac anallu [*erectile dysfunction*]
- problemau seicolegol yn cynnwys digalondid, gorbryder a theimlo'n isel ar adegau. (*mood swings)*

Symptomau eraill yw:

- Lliw'r croen yn debyg i liw efydd a chosi achlysurol.
- problemau gyda'r iau (afu) all arwain i sirosis neu gancr yr afu.
- problemau mislifol mewn menywod - yn afreolaidd neu eu habsenoldeb.
- gall arwain i glefyd siwgr neu guriad calon afreolaidd a diffyg anadl.

**Pryd dylid gweld eich meddyg teulu?**

Yr hyn sy'n bwysig iawn yw i'r dioddefwr gael diagnosis cynnar yn ei fywyd os yw'n dioddef un neu ragor o'r symptomau hyn.

**Beth yw'r driniaeth?**

Y driniaeth arferol yw tynnu gwaed o'r corff *(venesection/phlebotomy).* Os yw lefel yr haearn yn uchel argymhellir *venesection* yn wythnosol mewn ysbyty fel arfer. Tynnir tua 500ml (llai na pheint) yn wythnosol nes i lefel yr haearn ostwng i lefel mwy diogel a llai niweidiol i organau'r corff. Mae'r driniaeth yn debyg iawn i'r broses o roi gwaed yn wirfoddol ac yn cymryd rhyw 10-15 munud.

Ar ôl tua blwyddyn neu fwy o driniaeth wythnosol dylai lefel yr haearn fod wedi gostwng. Er hynny bydd angen cadw llygad ar lefel yr haearn gydag ymweliadau a'r ysbyty bob 2/3mis am weddill oes y claf.

**Beth yw'r elfen Genetig?**

Mae'r claf wedi etifeddu dau gopi o'r genynnau gwallus *(faulty)* o'r ddau riant. Er nid yw'n dilyn o reidrwydd bydd pob plentyn yn mynd i ddioddef effeithiau Haemochromatosis Genetig, y tebygolrwydd yw mai un o bob pedwar plentyn fydd yn dioddef.

**Fy nhad**

Cefais ddiagnosis fy mod yn dioddef o effaith Haemochromatosis Genetig bymtheng mlynedd yn ôl ar ôl rhai misoedd o drafodaethau gyda fy meddyg teulu. Erbyn hyn dwi wedi derbyn triniaethau cyson *venesection* yn Ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd ac yn parhau i fynd i'r clinic bob tri mis. Bydd yn ofynnol i fi barhau i dderbyn triniaeth am weddill fy oes. Yr hyn oedd yn holl bwysig oedd fy mod wedi trafod fy anhwylderau gyda fy meddyg a fy mod wedi cael diagnosis cywir ar y pryd.

O edrych yn ôl 'rwy'n argyhoeddedig bod fy nhad wedi dioddef effeithiau Haemochromatosis Genetig. Bu nhad farw yn 59 mlwydd oed dros ddeugain mlynedd yn ôl ym 1975, dros 20 mlynedd cyn i'r cromosom niweidiol gael ei ganfod. Yn naturiol felly doedd dim cyfeiriad at gyfraniad effaith niweidiol Haemochromatosis Genetig ar ei dystysgrif marwolaeth. Cofiaf ei fod wedi dioddef cyfnod o ddigalondid dwys a 'roedd rhai symptomau wedi ei flino dros gyfnod. 'Rydym yn ddiolchgar nad yw fy chwaer yn dioddef o'r afiechyd er mae'n debygol ei bod yn cario'r genyn gwallus.

*Gwilym Wyn Roberts*

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:*
serenagwill@btinternet.com
07968 463 737

# NEGES O DUBAI

## Lowri Haf Cooke yn holi Iolo Walters

*Mae Iwan Walters, sy'n wreiddiol o Riwbeina ac yn 44 oed, yn bartner mewn cwmni cyfreithiol yn Dubai. Mae e'n byw yno gyda'i wraig Kim (sydd o'r Bontfaen) a'u dau o blant – Gruff (sy'n 6 oed) a Betsi (sy'n 4 oed).*

**Pryd symudoch chi i Dubai a beth ydych chi'n gwneud yno?**

Symudon ni i fyw i Dubai dair blynedd yn ôl. Dwi'n gweithio i Eversheds Sutherland sy'n gwmni cyfreithiol rhyngwladol a gofynnon nhw i mi fynd i weithio i Dubai am dair blynedd. Dwi'n trafod y cam nesaf gydag Eversheds Sutherland. Dwi'n rhoi cyngor cyfreithiol i bobl sydd yn datblygu projectau ynni ac sy'n datblygu isadeiledd megis rheilffyrdd. Enghreifftiau o'm gwaith yn y cwmni yw gofalu am waith cyfreithiol i sicrhau codi 47 ysgol newydd yn Qatar, gosod rheilffordd newydd o Orllewin i Ddwyrain Saudi Arabia, wyth prosiect dŵr (dŵr glân a charthffosiaeth) i lywodraeth Saudi Arabia a phrosiect solar newydd yn Saudi Arabia. Mae Dubai yn wlad ddiddorol i fyw ynddi. Mae llawer o bethau anhygoel yma, er enghraifft, does prin dim sbwriel, does prin dim tor-cyfraith a does prin ddim glaw, eira nac oerfel!



**Sut ddechreuodd pethau newid i chi a'r teulu ar ddechrau'r pandemig?**

Fe gaeodd yr ysgolion a'r swyddfeydd a phopeth arall heblaw'r siopau bwyd. Roedd rhaid i ni gael trwydded arbennig gan yr heddlu i fynd i'r siop. Roedd rhaid dweud wrth yr heddlu pa gar oedden ni'n ei yrru i'r siop, pryd roedden ni'n mynd ac i ba siop roedden ni'n mynd i nôl bwyd. Dechreuodd pethau ailagor tua mis Medi ac mae pethau wedi bod yn weddol normal ers hynny. Mae Kim a mi wedi cael y ddau frechiad erbyn hyn ac mae'r ddau ohonom nôl yn y swyddfa yn rhan amser ac yn gweithio yn y tŷ weddill yr amser. Mae Kim yn gyfreithwraig hefyd gyda chwmni arall. Mae'r plant nôl yn yr ysgol erbyn hyn. Does dim teulu na ffrindiau o Gymru wedi gallu dod allan i ymweld â ni ers mis Chwefror 2020 pan ddaeth Aled fy mrawd a'i deulu yma. Fe lwyddon ni i fynd adre i Gymru ar wyliau yn haf 2020 a'r Nadolig.

**Beth yw eich barn chi ynglŷn â'r ffordd mae Dubai wedi ymateb i'r pandemig?**

Mae llywodraeth Dubai wedi ymdopi â'r pandemig yn arbennig o dda. Mae'r Emiradau Arabaidd Unedig (UAE) yn un o'r gwledydd sydd wedi llwyddo i roi'r brechiad i ganran helaeth iawn o'r boblogaeth.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod fel teulu erbyn hyn?**

Cyn y pandemig, roeddwn yn teithio bron bob wythnos i Saudi a Qatar. Does dim teithio wedi bod ers tua mis Mawrth 2020 sydd wedi bod yn arbennig o dda i mi. Patrwm arferol y dydd yw i mi godi tua 5am a mynd i seiclo ar hyd llwybr seiclo yn yr anialwch cyn i'r haul godi. Wedyn, dod adref a gweithio yn y tŷ trwy Zoom neu fynd i'r swyddfa. Mae Kim yn mynd â'r plant i'r ysgol cyn iddi hi ddechrau ar ei gwaith. Yna, fel arfer, ar ôl ysgol bydd y plant â rhyw fath o chwaraeon (nofio, pêl-droed, tennis). Ar y penwythnos, byddwn ni gan amlaf yn mynd i nofio mewn pwll nofio neu yn y môr gyda ffrindiau a bydd y rhieni yn trio cael diod bach tawel wrth y pwll neu'r traeth, ond bod Gruff a Betsi yn rhoi llonydd i ni ymlacio! Mae nawr yn hynod o boeth (tua 45 gradd) felly yng nghanol y dydd, byddwn ni yn trio bod tu mewn, yn y cysgod neu yn yr awyru oer rhywle!

**Beth oedd y sioc fwyaf i chi yn sgil yr argyfwng, neu a fedrwch chi ddweud i chi ddysgu rhywbeth yn ystod y cyfnod hwn?**

Dwi ddim yn hoffi hedfan bob wythnos - mae'n flinedig iawn a dydy teithio cymaint ddim yn dda i'r meddwl na'r corff. Roedd yna gyfnod hefyd pan nad oeddwn yn cael gadael y tŷ ac roeddwn yn rhedeg 60 gwaith o gwmpas tu allan y tŷ i gadw'n heini. Dwi wedi bod yn ymarfer ar gyfer rhedeg marathon, hanner Iron Man a ras feicio. Dwi hefyd wedi sylweddoli nawr fy mod yn gallu gwrando ar lawer iawn o gerddoriaeth Cymraeg o'r sîn roc Gymraeg ar Youtube sydd wedi bod yn grêt. Pe bai'n rhaid i mi benodi cân sydd wedi nghynnal i ar hyd y flwyddyn, byddai'n ddewis anodd iawn rhwng 'Angen Ffrind' (Diffiniad) ac 'Engyl Gwyn ar Waliau Glas' (Rhys ap Wiliam) – 'Angen Ffrind' yw fy newis i (Sori Jonesi!).

**Oes gyda chi neges i ddarllenwyr y *Dinesydd*?**

Tan yn ddiweddar, roedd ffrindiau da gennym yma yn Nubai ac roedd eu plant nhw yn siarad Cymraeg gyda Gruff a Betsi: erbyn hyn, mae nhw wedi symud nôl i Gymru. Rydw i'n siarad Cymraeg â Gruff a Betsi ond fy neges i ddarllenwyr y Dinesydd yw, os oes rhywun am symud i Dubai i ddysgu mwy o Gymraeg i Gruff a Betsi, byddwn yn ddiolchgar! Rhowch wybod i mi! Diolch!

# Pobol y Rhigwm

Croeso i gornel y rhigymwyr. Fe gofiwch mai'r dasg y tro diwethaf (Tasg 43) oedd llunio pennill o unrhyw fath yn cynnwys yr ymadrodd 'am dro'. Daeth cannoedd o gynigion i law, ond oherwydd prinder gofod a rhesymau eraill, dim ond lle i gyhoeddi'r pennill buddugol sydd y tro hwn.

Mae'r pennill yn cyfeirio at un o garedigion yr iaith Gymraeg yn Y Wladfa, sef Luned González. Mae'n amlwg fod y bardd wedi cael sgwrs rithiol gyda hi, a hynny'n destun rhyfeddod – fod y dechnoleg a'r iaith yn cysylltu ar draws cyfandiroedd.

Mae'n bennill anarferol o ran odlau, ond yn llawn haeddu'r wobr gyntaf, gyda diolch am gystadlu.

**Sgŵp**

(i Luned González o'r Gaiman, 19 Mai 2021)

Fe ddaeth o bellafoedd byd
Am dro drwy wyrth yr ennyd
Ar Zoom gan rannu'n ddiwyd
Yng nghwlwm yr heniaith ddrud.

*Ffugenw: Patagonia*

**Enillydd tasg rhif 43 yw**
**Gwen Emyr, Radur**

Y dasg erbyn y tro nesaf yw pennill, limrig neu englyn yn cynnwys gair o'r iaith Almaeneg. Gall fod yn bennill dwys neu ddigri. Vielen Dank!

Anfonwch eich cynigion at :
bryan.val.james@gmail.com erbyn 21 Mehefin.

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf mis Mai, croesawodd y Cadeirydd, Gwenda Morgan, y brawd Owen Saer. Mae Owen yn adnabyddus fel un o blant y ddinas, yn fab i Roy a'r diweddar Ann Saer. Canolbwyntiodd ar ei yrfa fel ieithydd, athro, cerddor, unawdydd, organydd a golygydd cylchgrawn Eglwys Minny Street a sylfaenydd busnes glanhau tai. Cyflwynodd ddwy gân - "Os yw'n galon bron a thorri" a "Chwarae'n troi chwerw" i bwysleisio gwerth pethau da a rheoli tristwch gyda hapusrwydd. Soniodd am ei brofiadau yn Korea, Siapan a Hwngari; dylanwad ar ei ffydd drwy ei Eglwys yn y Waun Ddyfal; a'i gariad at ei filltir sgwar. Hefyd pwysleisiodd bwysigrwydd hybu'r Gymraeg mewn busnes a diddordebau eraill.



Yn ail gyfarfod y mis croesawyd Dr Rosina Davies, a aned yn Nhrelech ac a fu'n feddyg yn Lerpwl ac Abertawe. Wedi ymddeol, adnebir hi fel un o Gymry gweithgar bywyd Cymreig Caerdydd yng nghwmni ei phriod, y diweddar seiciatrydd Dr Tom Davies. Cyflwynodd hanes cefnogwraig frwd traddodiadau Cymraeg, sef Winifred Margaret Coombe Tennant, Derwen Fawr, Abertawe (1874-1956), a fagwyd a'i haddysgu yn yr Eidal a Ffrainc. Cafodd fywyd breintiedig a theithiodd yn eang. Wedi priodi Charles Tennant, magwyd pedwar o blant. Ymhyfrydai ym myd celf ac yn arbennig waith Gwen John. Cofnodir ei hanes gan yr artist Peter Lord mewn dwy gyfrol ddiddorol. Prynodd fferm yn Gelli ben Uchel, Creunant mewn arwerthiant gwbwl Gymreig. Er na siaradai'r iaith, noddai lawer o feirdd a llenorion Cymru ac yn ffrind agos i'r cerddor a'r awdur Maria Jane Williams, Aberpergwm. Gwisgai'r wisg Gymreig yn gyson. Roedd yn ysbrydegydd dan enw Mrs Willett, y wraig gyntaf fel Ynad Heddwch, yn Heddychwraig, Swffragét, Ymgeisydd Seneddol Rhyddfrydol etholiad 1922, ffrind i'r Prif Weinidog David Lloyd George a chynrychiolydd yn y Cenhedloedd Unedig. Er yn ddigymraeg, ymddiddorai'n arbennig yn yr Eisteddfod Genedlaethol, yn Gadeirydd Pwyllgor Celf a Chrefft Castell Nedd. Diwygiodd wisg yr Orsedd fel Meistres y Gwisgoedd 1923-24, a'i hadnabod fel "Mam o'r Nedd". Daeth y rheol Gymreig llwyfan i fod yn 1950.



Cefnogai frwydrau'r glowyr ac ymgyrchu dros driniaeth cleifion yn y cartref. Ei harwyddair oedd "Bywyd yw gwasanaeth – gwasanaeth yw bywyd". Mae miloedd o'i llythyron a'i dyddiaduron yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Cyfarfodydd nesaf – Dydd Gwener, Mehefin 4ydd, 2.00 ar Zoom – Siaradwraig Sian Meinir a Dydd Gwener, Mehefin 18fed – Siaradwr Gerallt Nash.

*Menna Brown*

# Merched y Wawr Bro Radur

Cawsom gwmni Alwen Marshall, perchennog siop Iechyd Da yn yr Eglwys Newydd, yng nghyfarfod mis Mai. Agorodd Alwen y siop ddwy flynedd yn ôl, er mwyn mynd i`r afael â phroblem ein gorddefnydd o blastig. Dyma ffaith i`n sobri - erbyn 2050 bydd mwy o blastig na physgod yn y môr os na newidiwn ein ffordd o fyw. Cewch fynd â`ch poteli eich hun er mwyn prynu hylif golchi llestri, shampŵ, olew, finegr, gwin ac ati. Darperir poteli ar eich cyfer hefyd. Yn ogystal, gwerthir amrywiaeth eang o ffrwythau sych, blawd, pasta, siwgr, cnau a.y.y.b.

Mae Alwen yn cefnogi llawer o fusnesau Cymreig, sy`n amrywio o goffi Poblado a gynhyrchir yn Nantlle, ac sy`n defnyddio ffa coffi o Dde America, i Flawsome, sudd ffrwythau a wneir yng Nghwmbrân o ffrwythau nad ydynt yn berffaith o ran siâp a maint. Gwerthir canhwyllau, brwsys dannedd bambŵ a hufen gwyneb a wneir yn lleol hefyd. Er gwaetha heriau`r cyfnod clo, parhaodd Alwen a`i staff i ateb y galw am archebion drwy fynd â nhw i gartrefi pobl. Neges Alwen i ni oedd ei bod hi`n bosibl gwneud newidiadau mawr wrth i bob un ohonom gymryd camau bach i leihau gwastraff. Dyma beth yw arloeswraig a`n hysbrydolodd gyda`i brwdfrydedd dros greu byd gwell.




Ewch i ymweld â siop hyfryd a chyfeillgar Iechyd Da!

# Merched y Wawr Caerdydd

Roedden ni fel petaem yn eistedd efo Gwyneth Glyn ar ar ei haelwyd yn Eifionydd fis Mai a hithau yn ein diddanu drwy sgwrs a chân. Mor braf oedd ymlacio yn ei chwmni a mwynhau ei dawn o ddweud stori a pheintio darluniau drwy ei chaneuon, boed hynny yn hanes difyr am ei theulu ar y môr, yn brofiad plentyn yn ystod y cyfnod clo neu wrth ein tywys drwy ei chynefin. Mae'n ferch alluog a chynnes, yn fardd ac yn unawdydd llwyddianus ac wedi cael y profiad o gydweithio efo nifer o artistiaid eraill hefyd. Roedd blas mwy ar ddiwedd y noson gyda'r aelodau nid yn unig yn ymuno yn ei chân 'Adra' ond yn awchu am gyfle i ail glywed perfformiadau eraill Gwyneth. Da gwybod y daw cyfle pan fydd hi a'i phartner Twm Morys yn diddannu'r Rhanbarth fis Mehefin.


*Gwyneth Glyn*


*Gwenno a Moli*

Tro Llamau, un arall o'n helusennau eleni, oedd rhoi trosolwg a hynny yng nghwmni Gwenno a Moli. Sobrwyd ni o glywed bod un o bob tair o ferched Cymru yn profi camdriniaeth ar ryw adeg a da clywed am waith Llamau yn cefnogi merched a'u teuluoedd i gael cychwyn newydd.

Cawsom gyfle i gydymdeimlo efo Carol ar golli ei phriod Y Parchg Cynwil Williams, a thalu teyrnged i un o'n haelodau cyntaf, y diweddar Myfanwy Jarman.

## MENTER CAERDYDD
## MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Wrth i gyfyngiadau Covid-19 ddechrau llacio, bydd hi'n braf croesawu plant yn ôl i'n cynlluniau chwarae agored 'Bwrlwm', dros hanner tymor y Sulgwyn. Byddwn ni'n cynnal sesiynau'n rhad ac am ddim yng Nghaerdydd o ddydd Mercher, 2 hyd ddydd Gwener, 4 Mehefin yn Ysgol Coed y Gof; Parc y Sblot a Pharc y Marl, Grangetown. Maen nhw'n rhad ac am ddim ond RHAID bwcio lle o flaen llaw.

Bydd Menter Iaith Bro Morgannwg yn cynnig sesiynau 'Bwrlwm' hefyd - dydd Mercher: Clwb Athletau Penarth; dydd Iau: Parc Fictoria, Y Barri; dydd Gwener: Clwb Rygbi Llanilltud Fawr. Mae Bwrlwm yn agored i blant dosbarth derbyn hyd flwyddyn 6.

Ar ôl y gwyliau, bydd llond tymor o weithgareddau i aelodau ifanc y teulu - o glybiau drama i Amser Stori – a'r tro hwn, byddwn yn cynnig sesiynau wyneb yn wyneb. Bydd Bygi Heini yn parhau yn yr awyr agored a bydd Clwb Ioga newydd i bobl ifanc (16-21 oed) yn dechrau nos Lun, 7 Mehefin ar Zoom.

Yn ogystal â'r clybiau arferol, bydd nifer o sesiynau arbennig i oedolion: Cyfle i ddysgu ychydig o Eidaleg (10 + 17 Meh ar Zoom); Sgwrs y Mis: Tafodieithoedd y de-ddwyrain a'u pwysigrwydd heddiw yng nghwmni Dr Iwan Wyn Rees (28 Meh) a noson yng nghwmni Tast Natur pan fydd Non Rees yn cynnig syniadau blasus ar gyfer planhigion annisgwyl yn ein gerddi (25 Meh). Byddwn ni hefyd yn trefnu taith gerdded yn ardal Y Bont-faen tua diwedd y mis.

Ar ben hyn oll, mae cyfle i chi fwynhau holl arlwy Tafwyl ar amam.cymru/tafwyl. O gerddoriaeth i sgyrsiau ac o Sioe Cyw i Disgo Mr Urdd, mae oriau o hwyl i gael i bob aelod o'r teulu!

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol. Neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.




# Cylch Cinio Merched Caerdydd

*Annwyl Aelod,*

Trefniadau

Ymhellach i'n llythyr a yrrwyd atoch ar Awst 10fed y llynedd rydym, fel pwyllgor, yn anfon ein cyfarchion atoch gan hyderu eich bod yn iach ac yn cadw yn llawen yn ystod y cyfnod hollol anarferol yr ydym wedi bod ynddo ers dros flwyddyn bellach. Mae'r Pwyllgor wedi cadw mewn cyswllt â'i gilydd drwy'r cyfnod ac wedi cyfarfod yn ffurfiol ddoe i gytuno ar y trefniadau i'r dyfodol. Fel y cofiwch roeddem wedi trefnu cynnal Noson Gymdeithasol a Bwffe ar Nos Iau Mehefin 10fed 2021. Yn anffodus rhaid canslo y trefniant hwn. Mae Chris, o'r Clwb Golff, wedi dweud wrthym nad yw'n bosibl i gynnal digwyddiad o'r math a hyd yn oed y tu allan na allai ond cael 30 yn bresennol. Felly nid oes gennym unrhyw ddewis.

Rydym yn symud ymlaen i drefnu rhaglen arferol ar gyfer 2021-22 gyda'r bwriad o gychwyn yn Hydref 2021 a chynnal pedwar cyfarfod a'r Trip. Y dyddiadau sy wedi eu nodi ar gyfer 2021-22 yw: Hydref 14; Tach 25 (Cinio Nadolig); Chwef 3; Ebrill 7; Mehefin -Trip 2022. Felly nodwch y rhain yn eich dyddiadur ac fe ddaw mwy o fanylion i chi ym mis Medi.

Fel y nodwyd o'r blaen rydym fel Pwyllgor wedi cytuno i barhau yn ein swyddi am flwyddyn arall er mwyn hwyluso trefniadau a pharhad y Cylch. Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau personol, mae Mehefin wedi gorfod ymddiswyddo ac mae Rowenna yn cymryd cyfrifoldeb am restr gysylltu Mehefin. Hyderwn y byddwch i gyd yn dal i gymryd y gofal angenrheidiol ohonoch eich hunain ac edrychwn ymlaen i gyd gyfarfod fel Cylch Cinio ar Hydref 14eg yn Nghlwb Golff Radur. Mae croeso twymgalon yn aros aelodau newydd a hoffai ymuno gyda ni


Cofion cynnes gan y Pwyllgor,

*Rowenna Thomas (Cadeirydd)*

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Iolo Morganwg a Cherdd yr Eos ar Lan Elái** *(Rhan 3)*

Un o gerddi hyfrytaf Iolo Morganwg yw un y mae'n honni iddi gael ei chanu gan Ddafydd Gibwn o Sain Ffagan yn 1660 – bron i gan mlynedd cyn i Iolo gael ei eni yn 1747! Fel y nodwyd yn rhifyn mis Mai, yr hyn a gawn yn y gerdd synhwyrus, ramantaidd hon yw llanc ifanc o brydydd yn adrodd fel y bu'n crwydro'n unig wrtho'i hun yn ymyl coed ger afon Elái ar noson braf o Fai – mis byr ei nosau, mis cynta'r haf, a mis y cariadon – wedi ymgolli yn ei fyfyrdodau ac yn glaf o gariad. Wrth iddo rodio ger yr afon, fe glyw eos yn canu'n swynol ac yn llawen o 'lwynïos' (sef 'llwyni bychain') cyfagos, ac mae corff y gerdd yn sgwrs rhwng y bardd a'r eos lle mae'n dilyn hen gonfensiwn mewn cerddi Cymraeg trwy ofyn i'r aderyn fynd yn llatai (h.y. yn negesydd serch) drosto at ferch yn Nhyllgoed.

Fel y nodwyd y tro diwethaf, a barnu oddi wrth amlder y cyfeiriadau at eosiaid yng ngherddi Iolo, mae'n amlwg ei fod yn arbennig o hoff o'r aderyn ymfudol hwnnw, nid yn unig oherwydd ei lais swynol, ond hefyd am fod ei ddyfodiad yn arwydd fod yr haf gerllaw. Mae'r disgrifiadau llawn ansoddeiriau a geiriau cyfansawdd yn y gerdd o'r aderyn ac o fyd natur, rhyngddynt yn creu darlun cyfareddol o Fro Morgannwg, 'gardd Cymru' a 'pharadwys tir Prydain' fel y'i gelwir gan Iolo mewn cerdd arall. Mae'n noson glir; mae'r nant yn ddisglair; mae'r coed yn ir; mae blodau yn y llain. Mae'r eos fwyn yn 'gantores feindlos fach', a'i llais hyfryd, peraidd 'yn deffro dyffryn'.

Mae'r disgrifiad o'r ferch hithau yn un paradwysaidd. Merch ugain mlwydd oed ydyw, yn byw nid nepell i ffwrdd yn Nhyllgoed, tua hanner ffordd rhwng Sain Ffagan a Llandaf. 'Fairwater' yw'r enw Saesneg ar Dyllgoed, ac mae'r ddau enw'n hen, yn mynd yn ôl i'r Oesoedd Canol. Mae'r enw Saesneg yn cyfeirio at nant sy'n llifo i afon Elái. 'Tywyll goed' yw ystyr yr enw Cymraeg, meddai rhai; mae eraill wedi awgrymu mai sôn y mae am goed wedi eu tyllu (sef yr arfer o greu tyllau mewn coed i gadw gwenyn ynddynt); ond mae'n fwy tebygol fod yr enw Cymraeg, fel yr un Saesneg, yn cyfeirio at y nant, a honno'n tyllu llwybr trwy'r goedwig.

Enw'r ferch yn y gerdd yw 'Gwen'/'Gwenno', a ddefnyddir yn aml yn enw confensiynol ar ferch yn y canu serch Cymraeg, ac mae'r bardd yn pentyrru disgrifiadau ohoni trwy gydol y gerdd, a'r rheini hefyd yn rhai stoc. Mae'n deg, yn fwyn, yn gain, yn gynnes, ac yn 'llon ei llais'. Defnyddir yr ymadroddion 'deuliw'r lili', 'lliw'r can', 'deuliw'r manod' a 'ceingan' i bwysleisio gwynder ei phryd a'i gwedd – mae'n wynnach na gwyn – ond y mae hefyd yn 'ddeuliw'r hinon' (hynny yw, mae'n wridog iawn); ac ar ben y cwbl, mae hi'n 'lliw blodau'r llain gerllaw', y 'teca' 'rioed ei rhyw', ac yn wir, yn 'ail Dido', sef un o gariadon enwog yr Hen Fyd.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r ferch a'r eos a byd natur o'i gwmpas, mae'r llanc yn eithafol o druenus ei gyflwr. Mae'n unig; mae'n wylo fel y glaw; mae trymder yn ei galon a phoen o dan ei fron o gariad at y ferch; a lle y mae hi yn deg ei golwg, yn llawn bywyd, ac (fel yr eos) yn 'llon ei llais', mae'r bachgen yn nychlyd ei wedd a chwynfanus ei gân, a'i unig obaith am dorri ei 'drallod trwm' yw y bydd y ferch yn ymateb yn gadarnhaol i neges yr eos a'i briodi ar fyrder.

Fe gawn, felly, yn y gerdd hon holl gynhwysion rhamantiaeth: serch, natur, hiraeth, eithafrwydd, emosiwn. Ac nid yn y gerdd hon yn unig o bell ffordd, oherwydd mae'r nodyn rhamantaidd hwnnw'n seinio'n fyddarol trwy farddoniaeth Iolo. Nid heb achos y dywedodd yr Athro Alun Llywelyn-Williams: 'Efallai mai Iolo Morganwg oedd y rhamantydd mwyaf eithafol a welodd Cymru erioed.' Yn hynny o beth, fel mewn sawl ffordd arall, gellid dadlau nad yw Iolo yn perthyn i brif ffrwd bywyd diwylliannol Cymraeg ei ddydd, oherwydd rhaid aros tan ddiwedd y 19eg ganrif cyn y gwelwn Ramantiaeth yn cyrraedd Cymru yn ei grym, er y dylid pwysleisio fod dylanwadau rhamantaidd yn gryfach yn y tir mewn cyfnodau cynharach nag y rhoddir cyfrif amdanynt weithiau. A rhaid cofio, wrth gwrs, fod Iolo yn cydoesi â mudiad Rhamantaidd grymus yn Lloegr, a bod cysylltiadau diddorol rhyngddo a beirdd rhamantaidd megis Coleridge a Wordsworth.

Ar y mesur 'Mwynen Mai' y mae'r gerdd, un o fesurau mwyaf poblogaidd y carolau haf traddodiadol, ac mae'r odli a'r cyflythrennu sy'n drwch trwyddi yn ychwanegu'n sylweddol at ei naws synhwyrus, hudolus. Nid rhyfedd i'r Athro Griffith John Williams ddweud amdani, 'Bardd rhamant, a'i galon yn dawnsio i fiwsig y geiriau, a ganodd y gerdd hon', ac i'r Athro Prys Morgan ddatgan, 'It is one of the most purely musical poems in Welsh.' Dyma'r gerdd. Mwynhewch!

1 A minnau'n hwyr fyfyrian yn unig wrtho' i'm hunan,
  Yn ymyl coed yn rhodian gerllaw i lan Elái,
Clywn rywiog lais yr eos yn hygar o lwyn agos,
  A chryno'i chân ddechreunos, tra llon ym myrnos Mai.

2 Oedd trymder yn fy nghalon, 'waith caru deuliw'r hinon,
  Galarais dan ddoluron am hon, dyn llon ei llais;
Rhaid wylo'n dynn amdeni, a'm bwriad yno'n berwi,
  O'i chariad, deuliw'r lili, mae cur i mi i'm ais.

3 Cyfarchwn well i'r eos llawn awen mewn llwynïos,
  Uch claernant mewn eglurnos, gantores feindlos fach:
"O'r eos fwyn o'r llwyni â'th feliaith, da dy foli,
  Yn rhwydd rho gyngor imi, rhyw nawdd i'm peri'n iach."

4 Gofynnai'r eos beraidd, "Pam wyt ti'r mab serchogaidd
Yn wylo, clyw, mor waelaidd â chân gwynfanaidd faith?
Rho glywed imi'n union pwy alar sy'n dy galon,
Dymunwn wella'th ddwyfron; i'r gwirion da yw'r gwaith."

5 Rhois ateb iddi'n dyner, yn ystig mewn hynawster,
"Wyt imi'n dda dy dymer, O'r eos lwysber lais;
O byddi di mor addfwyn, atolwg, dos o'r tewlwyn,
A dwg at lasferch lwysfwyn bob gair o'm cwyn a'm cais."

6 "Rho glywed imi'r Cymro, ba le mae Gwen yn trigo,
Mae 'mryd i'n hynaws heno weld Gwenno deg ei gwawr.
Ble mae lliw'r can yn aros? Gobeithia'n rhwydd i'r eos;
Mi ddygaf iddi'n agos dy eiriau'n glos ar glawr."

7 "Rho ergyd brys o'r irgoed, deallgar daith i Dyllgoed,
At gynnes ferch ugeinoed, o'r teca' 'rioed ei rhyw;
Cei weled Gwen, ail Dido, un hoenus deg yw honno,
'Waith caru hon wy'n curio, mae'n beraidd yno'n byw."

8 "Y carwr mwynaidd cywrain, wylofus yw dy lefain,
Af at y rywiog riain, lliw blodau'r llain gerllaw;
Mynegaf i liw'r hinon y dolur sy'n dy galon,
A bod dy ddagrau'n heilltion fal defni gloywon glaw."

9. "Can diolch iti'r deryn, â'th gân yn deffro dyffryn,
A diddos byth bo'th dyddyn, llwyn celyn gerllaw cwm;
Duw wnêl i ddeuliw'r manod fy mynnu ar fyr yn briod,
Mae'm gobaith, Duw sy'n gwybod, y torr hi'm trallod trwm."

10 Os gofyn neb yn unman pwy ganws hyn i'r geingan,
Mab ifanc yn San Ffagan o brydydd diddan dwys;
Mae gwaeledd yn ei galon am honno, deuliw'r hinon,
Fe yrr ei chlod o gylchon mewn cerddi llon a llwys.

Geirfa
rhywiog = gwych, pur, addfwyn
hygar = hawddgar, annwyl, hyfryd
'waith = oherwydd
deuliw = dwywaith mor deg
hinon = heulwen
doluron: lluosog 'dolur'
dyn: gall fod yn wrywaidd neu'n fenywaidd
amdeni = amdani
ais = asen; bron, mynwes
llwynïos = llwyni bychain
uch = uwch
claernant = nant ddisglair
eglurnos = noson glir, ddigwmwl
meindlos: main + tlws/tlos
meliaith: mêl +iaith
gwirion = di-fai, diniwed
ystig = brwd, parod
glwysber = glwys (= hyfryd) + pêr (= melys)
o byddi = os byddi
glasferch = merch ifanc
gwawr = lliw; golwg, ymddangosiad
can = gwyn
irgoed: ir (= gwyrddlas) + coed
hoenus = llawn bywyd, bywiog
curio = nychu, dihoeni
heilltion: lluosog 'hallt'
fal = fel
defni: lluosog 'dafn'
manod = eira mân
canws = canodd
ceingan: cain + can (= gwyn)
cylchon: lluosog 'cylch'
llwys = hyfryd

# Merched y Wawr
# Y Felin

Mae cyfrol newydd o farddoniaeth hardd yn y siopau.

Ei henw : **AM YN AIL.**


John Gwilym Jones


Tudur Dylan

Trwy drefniant â Barddas cawsom y fraint i glywed y tad a'r mab sy'n gyfrifol amdani sef y Prifeirdd John Gwilym Jones a Tudur Dylan yn rhoi cyflwyniad i'r cerddi.

Hyfryd oedd gweld y sgrin yn llawn wynebau a oedd wedi tyrru i wrando ar y ddau yn sôn am sut yr oedden nhw wedi cytuno i gyhoeddi gyda'i gilydd a mynd ati i baratoi'r gyfrol ardderchog hon.

*"Gwna'n siŵr bod dy gerddi di yr un mor safonol â ngherddi i"* meddai'r tad wrth y mab ac eto roedd John Gwilym Jones yn cyfaddef ei fodd wrth ddarllen cerddi Tudur yn teimlo fel petai'r *"broga blwydd yn ceisio lladd y broga dwyflwydd",* a Tudur yn mynnu nad oedd hynny'n wir! Roedd hon yn noson ddifyr dros ben.

Am yn ail fuon nhw wedyn yn trafod y cerddi. Does dim cerddi tywyll hir nac awdl na phryddest eisteddfodol yn y gyfrol hon. Mae yma amrywiaeth iach o bynciau byw sy'n cynnwys cerdd ddoniol am yr organyddes a aeth ar goll, un am ddigwyddiad hynod mewn Cymanfa Ganu. Mae yma rantio am henaint a chwestiynu beth yw diwylliant.

(Cred JGJ taw "*byw bant yw allwedd diwylliant".* )

Adroddodd Tudur gerdd hyfryd i Gerald yr Ysgwrn am ei fod wedi cadw'n driw i gais ei nain (mam Hedd Wyn) i gadw'r Ysgwrn yn agored.

Gorffennwyd y noson gyda John Gwilym Jones yn adrodd cerdd hiraethus am ei gartef ym Mharc Nest. Dwedodd bod rhyw gwlwm yn ei dynnu yn ôl a'i fod yn sathru atgofion wrth fod yno. Noson i'w chofio.

***JGJ yn edrych yn hiraethus dros fro ei febyd***



# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Oedfaon Mehefin:**

(Rhithiol, er y gobeithiwn ail-agor y capel rhywbryd yn ystod y mis.

Parhau yn rhithiol fydd yr Ysgol Sul.)

6 - Oedfa Gymun - Delwyn Sion

13 – Huw Lloyd

20 – Parchedig Glyn Tudwal Jones

27 – Parchedig Aled Edwards

**Sut fyddech chi'n mynd ati i brynu camel?**

Bargeinio ydi'r ffordd draddodiadol o wneud hynny.

Yn yr Affrig, mewn gwledydd megis Namibia a Somaliland, mae'r farchnad yn lle swnllyd ryfeddol, ond pan ddaw yn amser trafod pris, gwneir hynny mewn tawelwch llethol.

Bydd y partïon yn rhoi eu breichiau o dan fantell, y prynwr yn gwasgu bysedd y gwerthwr – a'r nifer o fysedd a wesgir a'r nifer o figyrnau a gyffyrddir yn dynodi'r pris a gynigir.

Bydd y gwerthwr yn symud bysedd y prynwr nes y bydd y teimlad yn gyfystyr a phris digonol.

Dan orchudd erys y pris yn gyfrinachol rhwng y ddau.

Ond mae'r rhod yn troi, ac mae bargeinio agored yn cael ei ffafrio, yn rhannol oherwydd bod y ffôn lôn bellach yn galluogi'r partïon i gysylltu â'u gilydd a dod i wybod rhediad y prisiau cyfredol.

Mae merched hefyd a lle mwy amlwg yn y marchnadoedd, a'r gwaharddiad rhag cyffwrdd dieithriaid yng nghrefydd Islam, yn golygu bargeinio agored o'r herwydd.

Yn ôl a welaf mae 'na lawer mwy o son am gamelod yn yr Hen Destament na'r Testament Newydd (TN), ac 'roedd 'na ambell i gymeriad go amlwg yn berchenog ar gryn nifer ohonynt, Abraham, Jacob a Job yn eu plith.

Mae cyfeiriad yn y TN at ddillad Ioan Fedyddiwr, a'r stryffag i gael yr anifail druan trwy'r grau'r nodwydd, ond dim son am gamelod gan y "seryddwyr" rheini o'r dwyrain ddaeth a'u anrhegion adeg y geni.

Er fod ganddynt aur, thus a myrr, a'i methu taro bargen fu eu hanes tybed?

## EGLWYS Y CRWYS

Gyda'r tristwch mwyaf posib y derbyniwyd y newydd am farw ein cyn-Weinidog, y Parchg Cynwil Williams. Gŵr bonheddig â pharch uchel iddo ymysg ei aelodau. Ysgolhaig, pregethwr grymus, a Gweinidog gofalus. Mae ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Carol, a'r merched, Catrin, Siriol, a Lisa a'u teuluoedd. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr yn Y Crwys a diolch i Dduw amdano.

(gweler teyrnged ar dud. 18)

Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â theulu y diweddar Mrs Myfanwy Jarman. Gwraig annwyl a chwmniwraig ddifyr. Adroddwraig ac actores ddawnus. Bu'n aelod ffyddlon a gwerthfawr o Gwmni Drama y Crwys am flynyddoedd a hir y cofir am ei pherfformiadau arbennig. Mae ein meddyliau gyda Tanwen, Geraint, a Catrin a'u teuluoedd yn eu colled.

Llongyfarchiadau mawr i'r Athro Gwynedd Pierce ar ddathlu ei 100fed penblwydd yn ystod mis Mai. Hyfryd oedd clywed ei gyfraniad ar raglen Dewi Llwyd yn y Cyfarchion Penblwydd. A'r gyfrinach? – bod yn gymhedrol ymhob peth! Pob dymuniad da a phob bendith.

Llongyfarchiadau cynnes i un o'n blaenoriaid, Peredur Owen Griffiths, ar gael ei ethol yn Aelod o Senedd Cymru dros Ranbarth De Ddwyrain Cymru. Mae Peredur wedi cyfrannu'n aruthrol i'n heglwys yn ystod y cyfnod anodd hwn. Pob dymuniad da iddo yn ei swydd newydd.

Cynhaliwyd cyfarfod hynod ddiddorol gan y Gymdeithas yng nghwmni yr awdur Jon Gower yn rhoi sgwrs ar *Heddwch yn y Ddinas*, a rôl Caerdydd yn yr ymgyrch dros heddwch. Cyfeiriodd at Iorwerth Peate a fu ynglyn â'r ymgyrch a'i waith yn cofnodi hanes Mynydd Epynt cyn dymchwel 57 o ffermydd, ail-gartrefu 200 o bobl a meddiannu 30,000 mil o erwau gan y Fyddin. Clywsom am nofel Lily Tobias *Eunice Fleet* yn cofnodi hanes ei brodyr Jacob ac Isaac. O Gaerdydd y dechreuwyd y daith gan ferched i Gomin Greenham. Cyfeiriwyd at yr Ardd Heddwch ple mae coeden a phlac er cof am Helen Wyn Thomas a laddwyd trwy gael ei tharo gan gerbyd heddlu yn Greenham lle y cynhaliwyd cyfarfod coffa iddi yn 2010. Heddiw yng Nghaerdydd mae ymgyrch ar droed yn erbyn sefydlu Amgueddfa Filwrol yn y Bae. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Cynhelir oedfaon yn y capel o dan ofal y Gweinidog fore Sul, Gorffennaf 4ydd, ac yn yr hwyr ar y 18fed. Bydd oedfaon rhithiol ar yr 11eg a'r 25ain yng ngofal y Parchg Ddr R. Alun Evans a'r Parchg Robert Owen Griffiths.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Priodas**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Owain James ac Elizabeth Marsay ar eu priodas ddechrau Mehefin. Daw Elizabeth yn wreiddiol o Whitby yn swydd Efrog ond erbyn hyn, ar ôl manteisio ar gyfleon dysgu'r iaith yn ystod y cyfnod clo, mae ei Chymraeg yn arbennig o dda. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael cwmni Owain ac Elizabeth gyda ni yn yr eglwys.

**Ymwelydd o'r Eidal**

Yn ein cwrdd gweddi yn ddiweddar daeth Heledd Job atom o'r Eidal - ar Zoom wrth gwrs! Daw Heledd yn wreiddiol o Fangor ond am sawl blwyddyn bellach mae hi wedi bod yn Turin yn gwneud gwaith Cristnogol gyda myfyrwyr rhyngwladol yn y brifysgol yno. Fel rhan o'i chyflwyniad ar y gwaith dangosodd glip fideo arbennig o drawiadol o sawl myfyriwr, o wledydd gwahanol, yn darllen yn eu hiaith frodorol adnod yr un o Datguddiad 7 sy'n sôn am dyrfa fawr 'o bob cenedl' yn addoli Duw yn y nefoedd. Cofiwn am eiriau Iesu Grist yn dweud wrth ei ddisgyblion am wneud 'disgyblion o'r holl genhedloedd'. Mae amser Heledd yn yr Eidal yn dod i ben yn yr haf a bydd yn symud i Ddulyn i wneud gwaith tebyg ymhlith myfyrwyr rhyngwladol yn y prifysgolion yno. Dymunwn bob bendith a hwylustod wrth iddi ddechrau ar ei gwaith ac wrth setlo yn Nulyn.

**Cwrdd yn Tabernacl**

Rydym yn parhau i fwynhau cwrdd yn Tabernacl, yr Eglwys Newydd, am 5 ar brynhawn Sul ac mae hefyd yn bosib ymuno ar Zoom. Mae oedfa'r bore yn parhau ar Youtube. Mae croeso i chi ymuno â ni a cheir y manylion ar ein gwefan Cwmpawd.org

## BETHEL, RHIWBEINA

Roedd yn bleser i gael cwrdd yn y capel ar ddau ddydd Sul ym mis Mai. Bu'r ddau wasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog y Parchg Evan Morgan. Ar Fai 23 cynhaliwyd gwasanaeth 'Cymorth Cristnogol' ar Zoom, a drefnwyd gan aelodau Salem. Diolch i Shirley Williams am gynrychioli Bethel yn y gwasanaeth hwnnw.

Bu cynllun i gynnal 'Paned a Chlonc 'ar lawnt y capel ar Fai'r 20fed ond oherwydd tywydd anarferol o arw bu rhaid gohirio'r achlysur tan yr wythnos ganlynol. Gobeithiwn am well lwc y tro hwn.

Cynhelir dau wasanaeth arall yn y capel yn ystod y mis nesaf – ar Fehefin 13 a Mehefin 27 – y ddau dan arweiniad ein gweinidog.

Gan fod cyfyngu o hyd ar y niferoedd sy'n cael bod tu fewn i adeilad y capel, bydd y gwasanaethau ar Zoom yn parhau dros y misoedd nesaf.

Cofiwn at bawb sydd yn methu mynychu'r capel na'r gwasanaethau Zoom.

## EGLWYS MINNY STREET

**Oedfaon ac addoli**

Cynigir addoliad cynulleidfaol ym Minny Street ar fore Sul yn y capel, bore Mercher yn y festri a nos Fercher yn y capel dan arweiniad ein Gweinidog, gydag ambell lais gwahanol yn arwain yn achlysurol ar y Sul. Gan nad yw pawb yn gallu dod i'r capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a bore Mercher ar Zoom. Diolch i'r gweinidog am ddarparu taflen addoli wythnosol hefyd i gyd-fynd ag oedfa'r Sul. Oherwydd y cyfyngu ar niferoedd yn sgil y pandemig, mae hi'n ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn cael mynychu oedfaon yn y capel.

**Yr Ysgol Sul a PIMS**

Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gwrdd ar Zoom ar brynhawn Mawrth. Mae PIMS yn cyfarfod ar nosweithiau Llun bob yn ail wythnos yn y Deml Heddwch.

**Teithiau cerdded**

Ers i'r cyfyngiadau gael eu llacio, braf yw gallu mynd am dro yng nghwmni ein cyd-aelodau yn wythnosol. Gallwn edrych ymlaen at dywydd braf yn ystod y mis ar ôl glaw trwm mis Mai.

**Diaconiaid newydd**

Yn ddiweddar, etholwyd naw aelod o'r eglwys i fod yn ddiaconiaid am y chwe blynedd nesaf. Byddan nhw'n ymuno â diaconiaid eraill y mae eu cyfnod yn parhau. Bydd tymor naw diacon arall yn dod i ben.

**Undeb yr Annibynwyr**

Eleni, bydd Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr (29 Mehefin–1 Gorffennaf) yn gyfarfodydd rhithiol.

www.minnystreet.org @MinnyStreet

## TABERNACL, YR AIS

Llongyfarchiadau i Marged Jones wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd fel arweinydd y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Bu'n dysgu yn Ysgol Sant Curig hyd yma a da gwybod y bydd plant cynradd y Barri a'r cylch yn parhau i elwa o'i haml ddoniau.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhys ab Owen ar gael ei ethol yn aelod o Senedd Cymru. Fe fydd yn dilyn ôl traed ei dad, Owen John Thomas, wrth iddo yntau hefyd gynrychioli Plaid Cymru yn y Bae.

Cydymdeimlwn ag Ann Beynon ar golli ei chwaer iau, Sera, yn sydyn.

Treuliodd Elen Morse beth amser yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda gwybod ei bod bellach nôl gartre ac yn gwella.

Fe gafodd Calan McGreevy gwymp lletchwith yn ddiweddar. Braf yw gallu dweud bod ei hadferiad yn parhau.

Dymunwn yn dda i Rhian James a'i chymar Don wrth iddynt ymgartrefu yn Rhiwbeina.

Yn ôl ein harfer erbyn hyn, cynhaliwyd gwasanaethau drwy gyfrwng Zoom bob bore Sul. Braf yw cael nodi bod 13 o aelodau'r capel wedi trefnu a chymryd rhan yn y gwasanaethau ym mis Mai. Diolch hefyd i'r pump a arweiniodd y gwasanaethau yn y capel bob nos Sul – Owain Llyr Evans, Denzil John, Euros Rhys Evans, Rhys ab Owen a Lona Roberts.

Mae'r Clwb Darllen wedi ail-ddechrau a *Mefus yn y Glaw* gan Mari Emlyn oedd y testun yn y cyfarfod cyntaf. Yn y sesiwn nesaf, *The End of Her* gan Shari Lapena, awdures o Ganada, fydd yn denu sylw aelodau'r clwb.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

Mae Offeren Gymraeg reolaidd yr Eglwys Gadeiriol nawr yn agored i gynulleidfa ers llacio rheolau'r pandemig yn ddiweddar. Bydd croeso cynnes i bawb ar ail a phedwaredd nos Wener y mis am 6 o'r gloch – sef Mehefin 11 a 25.

Bydd yr Offeren yn dal i gael ei ffrydio'n fyw ar wefan yr eglwys – www.cardiffcathedral.org.uk

Mae Offeren y Sul yn dal i gael ei dathlu ar Zoom a'r gynulleidfa gyson yn mwynhau cwmni ein ffrindiau o bob rhan o Gymru a thu hwnt.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Carys Whelan ar carys@caerdelyn.com

## EBENESER

**Oedfa Cymorth Cristnogol**

Diolch i bawb gymerodd ran yn yr oedfa Cymorth Cristnogol ar Sul, Mai 9fed. Gwnaed darlleniadau gan Gill Lewis, Alison Jones, Eynon Williams, Tudur Jones a John Hayes ac fe gafwyd cyfweliad gyda Cynan Llwyd am weithgareddau Wythnos Cymorth Cristnogol. Cyflwynodd Alun neges ar Micha 6, adnod 8, sef, "Na, mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda..." Gellir gwylio'r oedfa unrhyw bryd ar sianel Youtube Ebeneser. Y mae hefyd fideo Cymraeg gan Gymorth Cristnogol yn adrodd hanes Florence yn Kenya sy'n cydweithio ar un o'r prosiectau'r elusen. Yn ystod y pnawn aeth criw ohonom am dro fel rhan o'r apêl i ni gerdded 300,000 o gamau yn ystod mis Mai. Fel eglwys roedd posibilrwydd y gallem, gyda'n gilydd gyrraedd y nod hwnnw. Roedd hi'n fraint wedyn i ni gael gwneud cyfraniad tuag at waith Cymorth Cristnogol.

**Odid**

Mae ein hastudiaeth Feiblaidd yn parhau yn rhthiol ar Zoom bob nos Iau. Rydyn ni'n edrych ar Lyfr yr Actau ar hyn o bryd.

**Bwyd**

Mae Ebeneser yn parhau i gyfrannu bwyd i'r digartref ac ymgeiswyr lloches yn fisol trwy elusen Enfys Gobaith. Rydym hefyd yn cael y pleser o allu cyfrannu dillad i ddynion, merched a phlant, o safon dda, nad oes gennym bellach eu hangen. Os hoffech chi gyfrannu bwyd neu ddillad i Enfys Gobaith, cysylltwch â'u swyddfa ar 029 2049 4317. Mae nhw wedi'i lleoli yn 25 Broadway, CF24 1QE ac ar agor dridiau yr wythnos, ar ddydd Llun, Mercher a Gwener, o 10:30 i 14:30. Bydden nhw'n dra diolchgar am unrhyw gyfraniadau neu help ymarferol.

## BETHEL, PENARTH

Da deall bod Eirlys yn gwella'n ara' deg o ganlyniadau poenus cwymp yn ei chartref. O leiaf, mae'n rhydd o'r 'sling' trafferthus. Yn ôl y sôn cafodd Hazel hoe bleserus iawn gyda'i theulu yn Sir Benfro yn ddiweddar.

Cawsom newyddion fod Iris am ildio'i chyfrifoldeb o fod yn aelod o Gyngor Bethel, gwasanaeth y bu wrtho'n ddiwyd tu hwnt am flynyddoedd lawer. Cofnodwn hyn gyda thristwch, ond hefyd gyda diolch cynnes am y fath ymroddiad. Hyfryd deall na fydd penderfyniad penodol Iris yn lleihau'r un iot ar ei brwdfrydedd dros fuddiannau Bethel mewn gweithgareddau eraill.

Ar y 3ydd o Fehefin bydd her anghyffredin o fentrus yn digwydd yn hen chwarel lechi Y Penrhyn ym Methesda, Gwynedd. Mae hyn o ddiddordeb arbennig i ni ym Methel, oherwydd fe fydd pedwar o'n cymdeithas (Nefydd a Sandra a'u dwy ferch, Llinos a Betsan) yn teithio ar gyflymder uchel iawn ar *zipwire* – y cyflymaf yn Ewrop, os nad y byd. Eu bwriad yw codi arian at elusen Achub y Plant; bydd eu cyfaill Emma yn enwedig o ddiolchgar oherwydd mae hithau'n ddiwyd iawn yn cefnogi'r elusen. Dymunwn bob peth da i'r pedwar, gyda'n hedmygedd o'u mentergarwach a'n cefnogaeth ariannol.

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor yr Eglwys ar Nos Fercher Mai 12fed. Cafwyd adroddiad manwl gan un o'n haelodau, Bryan, ar ei ymchwiliad i bosibiliadau adfer gwefan yr eglwys. Diolchwyd yn gynnes i Bryan am drylwyredd ei ymchwil, gan ddiolch iddo am ei barodrwydd i'n harwain ar y camau nesaf. Penodwyd pwyllgor bychan dan gadeiryddiaeth Emma i holi parthed nawdd at ddatblygu gweithgareddau newydd at hybu bywyd a gwasanaeth Bethel.

Ar Sul, Mai 2il cawsom brofi technoleg newydd yn yr oedfa foreol, sef, lansio ein cyfarpar 'darlledu', hynny yw, defnyddio camera a sustem sain newydd yn y capel, sy'n galluogi aelodau a ffrindiau i ymuno yn yr Oedfa o bell, gan ddefnyddio linc addas at y pwrpas. Dros y mis cafwyd mwy o arbrofi a felly bu trefn Zoom yn dawel. Diolchwyd yn frwd i John a Gerald am lywio'r trafodaethau gyda'r cwmni oedd yn gyfrifol am osod y cyfarpar. Cawn weld beth ddaw o'r cyfleoedd newydd hyn.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn ryfedd hon, byddwn yn cofio menter Meddyliau Mercher pan fu sawl aelod yn rhannu deunydd amrywiol i'n llonni bob dydd Mercher rhwng Mawrth a Medi mewn dyddiau blin. Cafwyd barddoniaeth, atgofion personol, sawl cwis, ysgrifau ysgafn, ysgrifau dwys. Mil o ddiolch i bawb. Ymhlith y cyfrannwyr ffyddlon iawn, yn gyfaill mawr i ni ym Methel, oedd y diweddar Euryn Ogwen. Cyfrannodd emyn ar gyfer Mehefin 20fed 2020 adeg wythnos Salwch Meddwl. Dyma bennill cyntaf ei emyn dan yr enw Caredigrwydd,

Trwy weithredoedd bach o gariad
Gallwn wneud ein byd yn well.
Gwên, cymwynas a rhoi cymorth
Sydd yn taflu golau 'mhell.
Mae'n oleuni
Sy'n dileu'r anobaith mawr.

Diolch iddo ac atgofion melys iawn

## EGLWYS DEWI SANT

**Festri'r Pasg**

Cynhaliwyd Festri'r Pasg 26 Ebrill ar Zoom. Cadarnhawyd y canlynol yn eu swyddi am y flwyddyn nesaf, sef Warden y Ficer: Wyn Mears, Warden y Bobl: Gwynn Matthews, Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig: Marian Fairclough, Trysorydd: Rhys Jones.

**Dydd Iau Dyrchafael a'r Sulgwyn**

Dathlwyd dwy o uchelwyliau'r Eglwys ym mis Mai, sef y Dyrchafael 13 Mai, a'r Sulgwyn 23 Mai gyda gwasanaethau yn yr eglwys, sef Cymun Bendigaid ar y Dyrchafael, ac ar y Sulgwyn, Cymun Bendigaid am 8.00 y bore a 6.00 yr hwyr gyda gwasanaeth teuluol am 10.30 y bore. Darlledwyd y podlediadau arferol bob Sul drwy'r mis ac fe gynhaliwyd gwasanaethau yn yr eglwys bob Sul hefyd.

**Cyngor Plwyf Eglwysig**

Cyfarfu'r Cyngor ar Zoom 24 Mai. Cytunwyd i gynyddu nifer y gwasanaethau a gynhelir yn yr eglwys ar Suliau Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Arbrofol fydd y drefn hon, ac fe fydd ystyriaeth pellach yn dilyn yr arbrawf.

Trefn y gwasanaethau yn yr eglwys o Fehefin i Awst.

**Sul Cyntaf:**
10.30 a.m. – Y Cymun Bendigaid
**Ail Sul:**
8.00 a.m. – Y Cymun Bendigaid
6.00 p.m. – Yr Hwyrol Weddi
**Trydydd Sul:** 10.30 a.m. – Y Cymun Bendigaid
**Pedwerydd Sul:**
10.30 a.m. – Y Foreol Weddi
**Pumed Sul:** (Awst yn unig)
8.00 a.m. - Y Cymun Bendigaid 6.00 p.m. – Y Cymun Bendigaid

**Cloch Dewi**

Ar ddechrau'r mis ymddangosodd rhifyn diweddaraf *Cloch Dewi* dan olygyddiaeth Wyn Mears. Yr ydym yn ddyledus iawn iddo am gynhyrchu rhifynnau mor ddeniadol.

**Coffi a Chlonc**

Dan arweiniad Sian Eleri Thomas cafwyd sesiwn ar Zoom ar gyfer y dysgwyr. Cynhelir y sesiwn nesaf 19 Mehefin.

**Angladd**

Dydd Mercher 19 Mai cynhaliwyd angladd y diweddar Ceri Saunders yn yr eglwys. Gwerthfawrogir ei gwasanaeth i fywyd yr eglwys dros y blynyddoedd ac yr ydym yn cydymdeimlo gyda Tim, Meirion, a'r teulu y neu profedigaeth.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad gydag Allan ac Erith Davies a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam Allan.

## SALEM, TREGANNA

**Gwasanaethau**

Cofiwch fod croeso i chi ymuno â ni ar Zoom ar foreau Sul am 10.15a.m. Cysylltwch â ni i dderbyn y cyswllt. Mae gwasanaethau ac Ysgol Sul i'r plant am 11a.m. hefyd yn Salem ar 6 ac 20 Mehefin - croeso i chi gysylltu i gofrestru.

**Digwyddiadau Mehefin**

Bydd picnic yn y parc i deuluoedd Salem ar 20 Mehefin am ganol dydd, cyhyd â bod y tywydd yn caniatáu, gan ymbellhau yn gymdeithasol. Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

**Cylch Trafod/Cylch Clonc a Sgwrs**

Mae'r Cylch Trafod wedi cwrdd yn ystod mis Mai i drafod 'Fy hoff le yng Nghymru'. Byddwn yn cwrdd eto, yn y festri neu'r tu allan os yn braf, ar 25 Mehefin am 11a.m. i drafod 'Fy hoff Emyn'. Am mai nifer cyfyngedig sy'n gallu cwrdd y tu mewn gofynnwn i chi gofrestru ymlaen llaw. Croeso i chi hefyd i ymuno â'r Cylch Clonc a Sgwrs 17 Mehefin am 11a.m.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Gareth Thomas sydd wedi colli ei dad yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn fawr hefyd â Meri Griffiths sydd wedi colli ei chwaer. Rydym yn meddwl amdanoch ar hyn o bryd.

# Côr Meibion Taf

Bydd Côr Meibion Taf yn cystadlu yn yr Eisteddfod Amgen eleni. Rydym eisoes wedi dod at ein gilydd i ymarfer wyneb yn wyneb a hynny trwy garedigrwydd Clwb Rygbi Pentyrch a oedd yn awyddus i ni ddefnyddio eu 'pergola' newydd sbon. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein hymarferion yn y dyfodol pan gawn gyfle i atgoffa'n hunain o'r hen ffefrynnau ac i gael blas ar ddarnau newydd, fel Cytgan yr Helwyr gan Weber. Cysylltwch â Rhodri Jones 07770 559961 (Cadeirydd) neu Colin Williams 07768 900738 (Ysgrifennydd) neu trowch at y wefan am ragor o fanylion https://cormeibiontaf.cymru

Er bod y côr wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bois wedi gweld eisiau'r ymarferion wythnosol yn festri Capel Salem. Hwn yw'r cyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn ogystal ag ymarfer y *repertoire* wrth gwrs. Fe benderfynon ni fynd ati felly i geisio dod i adnabod ein gilydd hyd yn oed yn well nag oedden ni eisoes a hynny trwy holi ac ateb cyfres o gwestiynau difyr ac ysgafn. Bydd pob aelod yn enwebu aelod arall yn ei dro. Rhodri Jones, ein parchus gadeirydd, sy'n dechrau'r gadwyn …

**Adnabod ein haelodau**



**Rhodri Jones (ein cadeirydd)**

**1. Rho grynodeb i ni o dy gefndir. Beth ddaeth â ti i'r ardal hon (dalgylch CMT)?**
Ces fy ngeni yng Nghaerdydd amser maith yn ôl. Canu yng nghôr Alun Guy yn yr Aelwyd ac erioed wedi mo'yn canu mewn côr meibion.

**2. Beth yw dy atgof cynharaf?**
Clywed y coliars yn cerdded i Bwll y Maindy uwchben Matexa Street yn Ton Pentre.

**3. Disgrifia dy hun mewn tri gair**.
Dedwydd.
Cymdeithasol. Boring.

**4. Beth yw dy hoff le di yng Nghymru / yn y byd?**
Y caffe bach ar y traeth yn Llanbedrog ar ddiwrnod tawel. Yn y byd? Venice.

**5. Oes gennyt ti unrhyw arferion drwg?**
Diogi.



**6. Beth sydd wir yn dân ar dy groen di?**
Rhagrith a lleisiau rhy uchel rhai pobol (gwell peidio manylu).

**7. Beth am rannu rhywbeth gyda ni nad oes llawer o bobl yn ei wybod?**
William Thomas, sylfaenydd Côr Meibion Brenhinol Treorci oedd fy hen dadcu.

**8. Pwy yw'r person mwyaf nodedig gwrddest ti erioed?**
Dr Terry Waite.

**9. Beth fyddai dy bryd o fwyd delfrydol? Gyda phwy byddet ti'n hoffi rhannu'r pryd hwn?**
Stecen Asgwrn-T a sglodion (ond cig o wartheg duon Cymreig) a rhyw bedair potel o win coch pinotage, Parrot Fish (un yr un).

Yng nghwmni Iolo Morgannwg, Dafydd ap Gwilym, Cynan (am y craic).

**10. Pan nad wyt ti'n dysgu *repertoire* CMT sut wyt ti'n mwynhau treulio dy amser hamdden?**
Darllen, olrhain hanes y teulu a gweithio ar y tŷ *(DIY)*

**11. Yn ystod y cyfnod clo pa raglenni teledu wyt ti wedi mwynhau eu gwylio?**
*Spooks* (eto). *Bloodlands, Sgwrs dan y lloer*.

**12. Beth yw dy hoff lyfr? Pwy yw dy hoff awdur?**
Does dim hoff lyfr 'da fi. Mae'n dibynnu ar y "mood". Hoff awdur? – ystod eang iawn, o Ddafydd ap Gwilym i Phylip Kerr a Dewey Lambdin.

**13. Pa un darn o gerddoriaeth byddet ti'n ei ddewis i wrando arno ar ynys bellennig?**
'Meillionen' (enw'r alaw a'r ddawns).

**14. Pan fydd y cyfnod clo drosodd beth wyt ti'n edrych ymlaen at ei wneud fwyaf?**
Cael peint mewn tafarn gyda chyfeilion hoff cytûn a chwtsh gan rywun.

**15. Pwy wyt ti'n enwebu i gwblhau'r holiadur hwn nesa?**
Gary Samuel (baswr)

**Rhodd hael**

**Dymuna pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Ferched y Wawr Bro Radur am eu rhodd hael tuag at gynnal ein papur bro. Gwerthfawrogir y gefnogaeth yn fawr iawn.**

## Y Parchedig W.I. Cynwil Williams



*Addasiad a chyfuniad o'r teyrngedau a draddodwyd gan y Parchg John Gwilym Jones a John Rowlands, Blaenor yn Eglwys y Crwys, yn angladd Cynwil yng Nghwrt y Cadno, ddydd Mercher, 12 Mai.*

Cafodd Cynwil Williams ei eni a'i fagu yng Nghwrt y Cadno – lle a arhosodd yn agos iawn at ei galon ar hyd ei oes. Fel y dwedodd y Parchg John Gwilym Jones ar ddydd yr angladd, "Mae Cynwil wedi dod gartre. Roedd Cwrt y Cadno yn golygu llawer iddo. Roedd cefndir y ffarm wedi rhoi cyfoeth y pridd yn ei Gymraeg. A byddai priod-ddulliau'r wlad gydag e i'r diwedd."

Ond roedd ei fryd ar fynd i'r Weinidogaeth ac aeth i'r Brifysgol yn Aberystwyth ym 1955. Yna cafodd ei sefydlu'n weinidog yng Nghapel Heol Dŵr, Caerfyrddin. Er mai byr fu ei gyfnod yno, fe wnaeth enw iddo'i hun fel pregethwr grymus a bugail poblogaidd a chyfaill cywir i lawer.

Symud, wedyn, ym 1965, i fod yn weinidog ar y Capel Mawr yn Ninbych a hefyd y Capel Bach yn y dref, sef Capel Seion, gyda dros 600 o aelodau yn y ddau gapel. Cafodd y Capel Mawr ei agor yn 1793, oedd yn gynnar iawn yn hanes Methodistiaeth: dyma gapel Thomas Jones o Ddinbych, un o arweinwyr cyntaf y mudiad, a chapel Thomas Gee. Roedd Gwasg Gee yn dal i ffynnu yn y dre, ac yn cynhyrchu papur newydd *Y Faner* bob wythnos, ac roedd rhai o lenorion amlwg y genedl wedi symud i Ddinbych i gynhyrchu'r papur, ac yn aelodau.

Yn Nyffryn Clwyd daeth Cynwil dan gyfaredd llenorion Dinbych a'r cylch. Meddai'r Parchg John Gwilym Jones, "Yng nghwmni Cynwil y cefais ymweld â Kate Roberts am y tro cynta. Ac fe ymdoddodd Cynwil i mewn yn ddedwydd iawn i gyfeillgarwch Gwilym R. Jones a Mathonwy Hughes, a Jennie ac Eirian Davies yn yr Wyddgrug. Ac rwy'n cofio Gwilym R. yn sôn am yr hyfrydwch a'r fraint a gaent o dan arweiniad Cynwil wrth iddo, yn ei bregethau, eu denu nhw at ehangder diwinyddiaeth cewri fel Bonhoeffer a Tillich."

Ac meddai John Rowlands, a oedd yn aelod ifanc yno ar y pryd, "Mi ddes i ddeall yn fuan bod ganddon ni Weinidog poblogaidd iawn gan bawb – yn ei gapeli ac ym mhlith trigolion y dref – a hynny er gwaethaf ei acen Ddeheuol ddiarth! Dysgais bryd hynny fod yna fawredd gwahanol yn perthyn i Cynwil, ar wahân i'w bregethu grymus a'i ffydd gadarn, sef ei bersonoliaeth hawddgar a oedd yn denu pobl ato. Oedd, mi roedd pobl Dyffryn Clwyd wedi closio ato a'i deulu bach, yn eu ffordd unigryw eu hunain, oedd yn gyfuniad o swildod a chynhesrwydd mawr. Gweinidog yn union fel yna oedd Cynwil gydol ei oes, yn mwynhau cwmni ac yn awyddus i helpu pawb. Gweinidog yr ail filltir, y drydedd a'r bedwaredd oedd o. Doedd dim yn ormod iddo ei wneud i chi, a byddai'n mynd allan o'i ffordd i helpu eraill, a hynny ar ei draul ei hun yn aml."

Tua'r adeg honno y dechreuodd Cynwil arwain teithiau tramor, i lu o wahanol fannau yn y Dwyrain Canol ac America a Rwsia, ac yn arbennig i Balesteina. Byddai'n wefreiddiol ei glywed yn sôn am ambell brofiad yn Israel, yn arbennig yn y mannau cysegredig yn Jerwsalem.

Yna, ym 1976, daeth her arall i'w ran: cael ei wahodd yn weinidog i Heol Crwys, Caerdydd. Cafodd eglwys yn y fan honno, hefyd, a oedd yn gwerthfawrogi ei ddoniau a'i bersonoliaeth. Fe wynebodd yr eglwys un cyfnod anodd pan fu'n rhaid symud ei lleoliad, a bu'r gwahaniaeth barn ymhlith yr aelodau yn ofid iddo ar y pryd. Ond daeth yntau a'r eglwys drwy'r cyfan yn arbennig o lwyddiannus, ac mae hynny i'w briodoli i ddycnwch a dewrder Cynwil.

Wedi iddo ymddeol yn 2001 mi roedd e mor brysur ag erioed, yn ysgrifennu ac yn crwydro Cymru o un pen i'r llall i bregethu. Ond roedd e hefyd yn selog iawn yn ei gapel ei hun. Un o'r mentrau pennaf yr ymgymerodd Cynwil â hwy oedd cyhoeddi bywgraffiad i Archesgob Cymru, Rowan Williams. "Bydd y gyfrol hon," meddai'r Parchg John Gwilym Jones, "yn sefyll yn glod i athrylith Rowan Williams a hefyd i ddoniau Cynwil, a chyfeillgarwch y ddau."

Derbyniodd y teulu nifer fawr o negeseuon cydymdeimlad, yn cynnwys hwn gan Huw Edwards y BBC, a'i dad, Hywel Teifi, yn gyfaill da i Cynwil. Dwedodd John Rowlands ei fod yn enwi Huw gan fod ganddo filoedd ar filoedd o ddilynwyr a bydd llawer iawn yn gweld ei sylwadau: "Gweinidog, pregethwr ac awdur nodedig; diolchwn am ei wasanaeth eithriadol a'i gyfeillgarwch di-ball. *One of the best Welsh preachers of modern times, author, patriot and faithful friend to so many*."

Wrth estyn ein cydymdeimlad gwresog â Carol, y merched, Catrin, Siriol a Lisa, a'u teuluoedd, cawn gloi â geiriau y Parchg John Gwilym Jones, "Bydd bwlch mawr ar ôl y pregethwr treiddgar a diwylliedig. Felly hefyd bydd pawb yn hiraethu am ei gymeriad hawddgar a dengar. Bydd y bwlch yn anfesuradwy i'w gyfeillion ac i'w deulu, teulu y meddyliai Cynwil gymaint ohonynt.

# Gwobrwyo

## Stori fer gan John Emyr

‘Bore da, Gaff,’ meddai Osian, ‘rwyt ti’n grand o dy go’ yn dy goler newydd.’

Cododd Gaff ei ben i edrych ym myw llygad ei feistr. Yna nodiodd ei ben fel petai’n dweud, ‘Cywir’; ac ysgwyd ei gynffon. Er ei osgo di-hid, doedd Gaff ddim yn un i anwybyddu gair o ganmoliaeth.

Wrth weld drwy’r ffenest fod Ryan y postmon yn agosáu, meddai Osian, ‘Tybed be sy gan hwn i’w gynnig inni heddiw?’ Cododd Gaff ei glustiau pan glywodd sŵn rhywbeth yn cael ei wthio drwy’r twll llythyrau. Brysiodd at y drws a dychwelyd i’r gegin ar ei union gyda thri llythyr yn ei safn.

‘Diolch Gaff. Gad imi weld. Biliau, biliau, maen nhw’n bla.’

Gafaelodd Osian yn yr amlen fwyaf a’i hagor. Tynnodd bapur A4 trwchus allan ohoni a darllen ei gynnwys ar garlam. Yna eisteddodd wrth fwrdd y gegin a’i ddarllen eto, yn araf y tro hwn.

‘Newydd da, Gaff. Newydd rhagorol.’

Trodd Gaff ei ben yn chwilfrydig ac edrych i fyny.

‘Yr arian, Gaff. Y dilyw ariannol. Mae o ar ’i ffordd.’

Ysgydwodd Gaff ei gynffon. Os oedd Osian yn hapus, roedd popeth yn iawn.

Ar ôl rhannu’r newyddion gyda’i briod Megan, aeth Osian a hithau i eistedd ar y patio gyda chwpanaid cry o goffi yn eu dwylo crynedig. Darllenodd Megan y llythyr eto.

‘Mae’n anodd credu,’ meddai Osian, ‘ond edrych, mae’n glir mewn du a gwyn fod y ci aur wedi ateb holl ofynion y gyfraith. Mae’n drysor. Yn drysor *bona fide*. Felly bydd perchennog y tir yn cael hanner ei bris a byddwn ninnau’n cael yr hanner arall. Heb ddadl. Dim ond mater o amser ydi hi bellach. Pan gaiff y ci aur ei werthu, mi fyddwn ni ar ben ein digon.’

‘Llongyfarchiadau i ti,’ meddai Megan.

‘Llongyfarchiadau i ti, Meg. Llongyfarchiadau inni i gyd. A diolch yn arbennig Gaff,’ meddai Osian gan fwytho pen y ci. ‘Dy ddarganfyddiad di oedd y ci aur.’

Cyfarthodd Gaff yn uchel – tri chyfarthiad buddugoliaethus. Ond wedi’r foment o ymollwng, dechreuodd wneud sŵn crio yn ei wddf i awgrymu ei bod hi’n bryd iddo gael mynd am dro. Gwenodd Osian ac aeth i nôl y tennyn.

Wrth iddyn nhw gerdded ar hyd eu hoff lwybr, meddyliodd Osian am y cyfnod oedd wedi mynd heibio ers i Gaff ddarganfod y ci aur. Pwy fyddai wedi breuddwydio bryd hynny y byddai misoedd o ansicrwydd yn eu haros – ansicrwydd oherwydd argyfwng y Covid-19 ar y naill law, ac ansicrwydd ynghylch y ci aur ar y llaw arall? A fyddai’r awdurdodau yn dyfarnu mai trysor oedd hwnnw? Ym meddwl Osian, ar y pryd ac wedyn, roedd hi’n hollol amlwg fod y ci aur yn arteffact eithriadol o hen, yn perthyn i’r cyfnod Rhufeinig o bosib. Ond doedd dim yn sicr hyd nes y deuai’r dyfarniad terfynol. A heddiw, o’r diwedd, roedd y dyfarniad hwnnw wedi cyrraedd, ac roedd yn un gwerth chweil.

‘Be gawn ni ’i wneud i ddathlu?’ gofynnodd Osian ar ôl i Gaff ac yntau ddychwelyd i’r tŷ.

‘Anodd dweud,’ meddai Megan. ‘Sut mae gwario ffortiwn ar ôl blynyddoedd o gyfri’r ceinioga?’

‘Paid â phoeni,’ meddai ei gŵr, ‘mi feddyliwn ni am rywbeth.’ Yna ychwanegodd, ‘Mae Gaff yn haeddu tipyn o faldod, wsti.’

Cododd y llamgi ei glustiau.

‘Be am inni fynd i’r lle maldodi cŵn yna?’

Gostyngodd Gaff ei glustiau. Roedd wedi gweld lle tebyg yn cael ei hysbysebu ar y teledu.

‘Paid ag edrych mor surbwch, Gaff. Dwi ddim yn sôn am yr olchfa geir.’

Effaith y geiriau hynny oedd gyrru crud drwy gorff Gaff wrth iddo gofio’r sioc o ddeffro ar sedd gefn y car pan oedd hwnnw wrthi’n symud yn araf drwy storm yr olchfa geir.

Pan gyrhaeddon nhw y tu allan i’r lle maldodi cŵn, syllodd Gaff yn bryderus drwy’r ffenest. Y peth cyntaf a welodd oedd pwdl gwyn oedd wrthi’n cael ei sychu. Roedd penrhwym tyn wedi’i lapio am ei safn, a hongiai gerfydd ei geseiliau ar harnais. Nofiai yn yr awyr gan ddawnsio'r un pryd, ei gôt wlanog yn chwyrlïo i bob cyfeiriad fel gwallt aelod o fand seicedelig o’r 1970au yng ngwewyr ei gân. Doedd hynny ddim yn apelio at Gaff, a dechreuodd dynnu ar ei dennyn.

‘Paid â thynnu,’ meddai Osian. ‘Does dim achos poeni. Mi gei di hwyl.’

Hwyl? Pa fath o wobr oedd hyn am ddarganfod trysor?

‘Dishgwl arno fe,’ meddai merch a ddaliai beiriant tebyg i ddryll yn ei llaw, ‘druan bach, ma fe’n chwys shwps.’

‘Odi,’ meddai un o’i chyd-weithwyr, ‘Ma fe wedi ca’l eitha shiglad ac eisie cwato.’

Ond er eu cydymdeimlad, ufuddhau fu raid i Gaff. Ymhen rhai munudau, roedd yntau yn ei chanol hi, dan lafn y siswrn, wedyn dan rym y gawod, ac yn olaf yng ngwylltineb rhuad y peiriant sychu.

Wedi hynny i gyd, er ei fod yn ddigon o sioe o ran pryd a gwedd a phob blewyn yn ei le, roedd Gaff yn bictiwr o siom, ei lygaid mawr brown yn adrodd cyfrolau. Be oedd ystyr hyn i gyd? Ble oedd Osian?

Eisteddai hwnnw ar soffa wrth y ffenest, yn syllu ar yr olygfa o’i flaen – y rhes o gŵn, a phob un yn eistedd ger ei berchennog, yn disgwyl ei dro fel cystadleuydd llwyfan mewn eisteddfod. Sylwodd Osian, gyda phang o euogrwydd, ar y siom yn llygaid Gaff. Er i’w gi gael sylw maldodus o’r radd flaenaf, nid diolchgarwch a welai yn y llygaid hynny.

Eto, meddyliodd Osian, cyn bo hir byddai’r hen Gaff yn ei hwyliau drachefn. Nid un i bwdu am byth oedd y llamgi hwn. ‘Fydda fo ddim yn dal dig. Ac er gwaethaf ei holl siom, byddai’n anghofio’r cyfan toc ar ôl iddo gael tro arall yn y wlad ar hyd eu hoff lwybr. Wedi’r holl dreialon, cyfeillgarwch fyddai’n cario’r dydd.

# Cwmni'r Dysgwyr

## Cystadleuaeth i'r Dysgwyr



Gwilym Dafydd

### Amser Jôc gyda Huw James

Un diwrnod penderfynodd Anti Megan fynd â'i hŵyr - Gareth, mab Ianto  i'r traeth yn y Borth. Cyrhaeddodd y tŷ yn ei Morris Minor llwyd ac fe helpodd Ianto hi i lwytho'r cyfan  - cadair dec, rhwyd berdys, bwced a rhaw, ei wisg ymdrochi a... bron wedi  anghofio, ei het i'r traeth. Mae'n benfelyn a doedden nhw ddim eisiau iddo gael ei losgi gan yr haul!

Fe gyrhaeddon nhw'r traeth ar ddiwrnod heulog hyfryd - darn hir o dywod. Gosododd Gareth i lawr gyda'i fwced a'i raw a dechreuodd hi gael trafferth gyda'r gadair dec. Yn y diwedd  roedd y gadair yn iawn ac roedd hi'n setlo i lawr gyda'r *Western Mail* a'i gwau wrth gofio am het Gareth - rhaid gwneud hynny. Het  ar ei ben yna dychwelyd i'r gadair.

Wrth iddi eistedd yno yn y gwres yn gwau, darllen - dechreuodd hi gwympo i gysgu.  Yn raddol, heb iddi sylwi,  sleifiodd  y llanw yn agosach ac yn agosach. Yna daeth ton - yn fwy na'r lleill - yn wir bron yn don allan o'r cyffredin. Fe wnaeth y sŵn wrth ddod mor agos ei deffro dim ond i weld ei hŵyr gwerthfawr yn cael ei lusgo allan i'r môr. Mewn dim o amser roedd e allan o'r golwg.

Yn ei thrallod gwaeddodd ar Dduw Hollalluog. Roedd hi'n mynychu'r capel  yn rheolaidd – gyda'r Bedyddwyr.

"O Dduw," gwaeddodd hi, "beth wyt ti wedi ei wneud? Sut alla i fynd yn ôl at fy mab a'i wraig a thorri hyn iddyn nhw? Sut allwn i eu hwynebu? Os gwelwch yn dda adfer fy ŵyr i mi. Cymerwch fy mywyd os byddwch yn dymuno. Rwy'n hen ond mae ganddo ei fywyd cyfan o'i flaen.

Ac yna - yn llythrennol allan o'r awyr - daeth mellt a tharanau. Cwympodd ton rhyfeddol arall ar y traeth gan ollwng Gareth bach wrth draed ei fam-gu. Roedd ei rhyddhad yn annisgrifiadwy. Gafaelodd ynddo yn ei breichiau ac edrych i lawr ar ei ben yn diferu. Yna trodd ei llygaid tua'r nefoedd i annerch ei gwneuthurwr:

"Ond Duw Bach,"gwaeddodd hi. "Ble mae ei het? "

**Dysgwyr!**
**Dyma'ch cyfle i ennill £150!**
**Cystadleuaeth: Erthygl i'r *Naturiaethwr***

Oes gennych chi ddiddordeb mewn byd natur, neu mewn effeithiau dyn ar fyd natur?

*Y Naturiaethwr* yw cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd, sef Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwyd y Gymdeithas ar ôl y naturiaethwr, yr ieithydd a'r hynafiaethydd Edward Llwyd (1660 - 1709).

Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i ddysgwyr i ysgrifennu erthygl ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â diddordebau Edward Llwyd. Sonnir am ei ddiddordebau yn yr englyn er cof amdano gan John Morgan, yn y ddeunawfed ganrif:

Meini nadd a mynyddoedd – a gwaliau
    Ac olion dinasoedd
A dail, dy fyfyrdod oedd,
A hanesion hen oesoedd.

Dylai eich erthygl fod rhwng mil a dwy fil o eiriau a chroesewir lluniau addas i fynd gyda'r erthygl, a dylid anfon erthyglau yn ffurf MS Word neu raglen gyfrifiadurol gyffelyb, os yn bosib, drwy e-bost at: naturiaethwr@triban.net

Bydd erthyglau addas yn cael eu cyhoeddi yn *Y Naturiaethwr*, a bydd gwobr o £150 i'r erthygl orau.

Anfonwch eich erthygl erbyn 5ed o Orffennaf 2021 os gwelwch yn dda.

Mae enghreifftiau o'r Naturiaethwr i'w gweld ar y we, yma:
www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/y-naturiaethwr/

*Nodyn:*

*Mae ysgrifennu yn rhan bwysig iawn yn eich ymdrech i ddysgu Cymraeg. Mae'n rhoi amser i chi feddwl am y ffordd orau o fynegi eich hun. Pan dych chi'n sgwrsio gyda rhywun dych chi'n gorfod meddwl yn gyflym ac mae'r sgwrs yn eich blino. Mae pawb yn gallu ysgrifennu dim ond iddyn nhw wneud y camau cyntaf. Felly rhowch gynnig ar y gystadleuaeth yma, hyd yn oed os nad ydych yn ennill bydd y profiad yn werthfawr iawn.*

*Pob lwc*
*Rob Evans*

### Oedfaon Swmiaid Hapus

Erbyn hyn, wedi rhoi cychwyn arni ddiwedd mis Hydref llynedd, dyn ni wedi cyfarfod 27 o weithiau ar foreau Sul am ddeugain munud rhwng 9 a 9.40 o'r gloch.
Bellach yn ystod misoedd yr haf, dyn ni am gyfarfod yn fisol a hynny ar fore Sul cyntaf o'r mis, felly 6 Mehefin, 4 Gorffennaf ac yn y blaen.

I'r mwyafrif ohonoch sydd fel arfer wedi hen arfer mynychu oedfa Saesneg yn eich eglwys neu gapel, gobeithio i chi fwynhau'r profiad o ddarllen emyn neu ddarn o'r Beibl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel arfer daw rhyw 9-12 ynghyd – y mwyafrif o Gymru ond Simona o Slofacia lle mae hi awr yn hwyrach nag yma ac Emyr o Doncaster. Croeso i siaradwyr Cymraeg newydd i'r cwmni. Os am ymuno cysylltwch ag eirianagwilym@gmail.com

# Cymrodorion Y Barri

## Noson Lawen Rithiol

Yn ddiweddar rydym wedi gorffen ein blwyddyn o raglenni trwy gynnal Noson Lawen hwyliog ymysg ein gilydd. Eleni, doedd hyn ddim yn bosib wrth gwrs, ac roedd hi'n dipyn o her i lenwi'r gofod. Sut, felly, oedd dod o hyd i ffordd i adlonni'r aelodau? Pendronnais. Crafais fy mhen, ac *eureka*! Cefais syniad.




*You Tube* amdani bois! Treuliais oriau pleserus yn cribo trwy arlwy toreithiog y wefan a dod o hyd i berlau fel Ryan Davies yn canu 'Kalinka', ac yn egluro Cerdd Dant i'r anwybodus; i gantorion fel Dafydd Iwan, a Rhys Meirion gyda Siân James ym Mhenant Melangell, canu gwych Pedair, a ffilm dorcalonus am foddi Capel Celyn i sain hudol Heather Jones yn canu 'Colli Iaith'.

Roedd yna ddawnsio gwerin hefyd (wrth gwrs!) Clocswyr Talog, Triawd Nantgarw yn 'clocsio cerdd dant', a Tudur Phillips yn torri record Guinness wrth ddiffodd 55 o ganhwyllau gyda sodlau'i glocsiau, a llawer mwy! Cymaint o bleser, a thoreth o dalent Cymreig di-hafal, a'r cyfan heb adael y tŷ! Ewch i chwilio amdanyn nhw ar *You tube*, maen nhw i gyd yno!

Diolch i Jên Dafis am sicrhau fod yr ochr dechnegol yn gweithio fel watsh, neu mi fydde hi wedi bod yn draed moch arnon ni!

Mi fyddwn ni nôl ym Mis Medi, a gobeithio wyneb yn wyneb y tro hwn (croesi popeth!).

Eiry Palfrey

---

## ADDYSG GYMRAEG – RHIFAU'R ROWND CYNTAF DDIWEDD EBRILL

Mae cyfanswm y ceisiadau am fynediad i addysg gynradd Gymraeg wedi cynyddu o 680 yn Ionawr i 702 erbyn dosbarthu llefydd ddiwedd Ebrill pryd derbyniwyd 674 i'r 17 ysgol gyda 28 yn methu cael lle yn y 5 ysgol orlawn sef Melin Gruffydd (1), Nant Caerau (14), Treganna (2), Mynydd Bychan (7) a'r Wern (4).

Wrth gwrs mae cyfanswm ceisiadau o 702 yn siomedig yng ngoleuni'r mynediad syfrdanol o 779 llynedd ond rhaid cofio bod hyn yn digwydd pryd mae gostyngiad yn nifer y ceisiadau dros y sbectrwm sef yn y sectorau Saesneg a Chymraeg. O'r 12 ysgol nad ydynt yn llawn eleni mewn 7 ohonynt mae 10 neu lai o lefydd gwag sef Y Creigiau (10), Bro Eirwg (7), Penypil (5), Glan Ceubal (10), Hamadryad (9), Penygroes (9) a Phencae (1). Mae Hamadryad a Phenygroes yn ysgolion newydd yn y cyfnod o dyfu ac mae'r rhifau yn galonogol. Does dim angen pryderu am sefyllfa'r 5 arall lle mae'r cwymp yn ddealladwy mewn cyfnod o drai cyffredinol.


Fe all fod mwy o ofid am sefyllfa'r 5 arall lle mae llefydd gwag rhwng 15 a 31. Mae 2 ysgol lle mae 15 o lefydd gwag sef Gwaelod-y-garth a'r Berllan Deg sydd yn y gorffennol wedi gwynebu gwasgedd mawr am le; nid oes angen pryderu am eu sefyllfa hir dymor – daw adferiad yn fuan. Mae Pwll Coch â 23 lle gwag ond mae ei chymdogion, yn orlawn (Treganna) neu bron yn llawn (Hamadryad). Mae'r 3 ysgol yn gwasanaethu 4 ward o'r ddinas (Trebiwt, Grangetown, Treganna a Glanyrafon) lle mae llawer o dai newydd yn cael eu codi ym Melin Elai, Heol Dumballs a Phentre'r Campau ac yn fuan bydd angen pob un o'r 210 lle sydd ar gael er fod y galw eleni am 180.


Mae 2 ysgol sydd â 31 lleoedd gwag yr un. Mae Glanmorfa mewn adeilad newydd hyfryd yn cystadlu gydag ysgolion Saesneg mewn hen adeiladau ac ers 4/5 mlynedd wedi methu derbyn ceisiadau gan tua 45 plentyn am y 30 lle yn yr hen adeilad. Fe lenwir y llefydd gweigion yn y dyfodol agos. Gwahanol yw sefyllfa Coedygof, ysgol 2 ffrwd; ers 1995 yn meddu ar brif adeilad dros 50 mlwydd oed a rhes o gabanau "dros dro" sydd wedi bod yno am fwy na 25 blynedd. Cafodd Y Wern gabanau fel rhan o'r un cynllun ond mae'r Wern wedi cael gwared ohonynt mwy na 15 mlynedd yn ôl wrth ennill safle Cefn On i sicrhau'r campws cyfan. Nid yw'r ysgol yn gyfleus i hanner ei thalgylch sef ardal Trelai ble mae'r trigolion yn ceisio lle yn Nant Caerau sy llawer yn nês atynt. Bydd Coedygof yn debyg o golli Radur o'i thalgylch pryd bydd Ysgol newydd "Plasdwr" yn agor y flwyddyn nesaf. Rhaid i bawb bryderu am ddyfodol Coedygof, ysgol hanesyddol fel un o'r 4 i gael eu sefydlu yn lle Bryntaf ar ddechrau'r 80au.

Nid wyf wedi ystyried sefyllfa'r 28 plentyn na chafodd le yn y 5 ysgol orlawn. Bydd y sir yn sicr o gynnig lle mewn ysgolion cyfagos i'r rhai sy wedi methu ym Melin Gruffydd, Treganna a Nant Caerau. Ni fydd mynd i Goedygof yn plesio rhieni oedd yn ceisio Nant Caerau. Mae'r sir â chynllun i ehangu Mynydd Bychan erbyn 2022 ac yn fodlon derbyn ffrwd ychwanegol yn yr adeilad presennol am un flwyddyn lle y gellid cynnig lle i'r 7 oedd yn ceisio lle yno a'r 4 sy wedi methu yn Y Wern. Ond roedd ymateb y rhieni yn wrthwynebus i gynllun y sir yn y 2 ysgol sef Mynydd Bychan ac Allensbank a nid yw'n hysbys eto beth fydd ymateb y sir i'r gwrthwynebiad.

*Michael Jones*

## Rhif: 214



### Ar Draws

1. Picio draw i ddwyn (5)
4. Egluro sut mae seboni cylch (7)
8. Newid nôd Efa o gyrraedd y cyfarfodydd (7)
9 Cyrraedd y gwaelod mewn caddug o dreigliadau (5)
10. Mae sawl ffordd i fod yn hyll (4)
11. Un o Gaernarfon a phâr arall nad a'n angof (8)
13. Yn agos i'r fynwes (4)
14. 18 yn colli dechrau'r Sadwrn segur (4)
16. Er budd Dai gwell iddo fynd i hyn (1,7)
17. Bwlch yn y gymeradwyaeth (4)
20. Iâr o dŷ Esra ar yn ail yn pigo gwyrddni (5)
21. Bod yn ddiddig yw bodoli o gwmpas diwedd y gwanwyn (7)
22. 'Ac ynddo fwrdd yr Aberth, dodrefn gras, ----- gobaith a seleri ffydd' (DGJ) (7)
23. 'Clodforaf enw Brenin nef. Mae ynddo Ef bob -----' (Anad) (5)

### I Lawr

1. A yw Coleg y Ceirios yn y pentref hwn? (13)
2. Tro ar droed ceffyl (5)
3. Yn ddiwethaf, ganol nos, ble mae ofn? (4)
4. Mae goleuni heb dro yn troi'n fywiog (6)
5. 'Myfi'n -----'r gwenith gwyn Ac arall yn ei fedi' (tradd) (8)
6. Mae dogn Dei yn anarferol (7)
7. 'Daeth haid ----- ----- ----- Ar gangau'r goeden ir' (IDH) (1,5,7)
12. 'Roedd gwlith y ----- ----- ----- foch Yn ddafnau arian, flodyn coch' (IDH) (4,2,2,)
13. Ofn drysu'r del yn y llys barn (7)
15. Galw'r '*butler*' - tair gwaith! (6)
18. Yn ddiamheuaeth dechrau Gorffennaf yw'r amser i waredu dillad (5)
19 Y di-do yn codi braidd (4)

**Enillydd Croesair Rhif 212**

**Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Croesair Rhif 212**

**Ar Draws** 1. Cliwiau 7. Di-fudd 9. Cysgu 10. Caredig 12. Pentrecagal 14. Camgymeriad 18. Lluddedig 19. Gwaed 21. Y gwin 22. Drostan

**I Lawr** 1. Clwyd 2. Gwagle 3. Llau 4. Difetha 5. Llurigau 8. Dadebru 11. Stompio 13. Galluogi 15. Gwerin 16. Anwesu 17. Reiat 20. Erw

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Gorffennaf, 2021
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Edrych, Dweud, Canu, Chwarae

### Ymgyrch yr NSPCC wrth i gyfyngiadau lacio.

Diben yr ymgyrch newydd hon yw helpu rhieni i gefnogi datblygiad eu baban drwy dynnu sylw rhieni at sut y gall rhyngweithio â'u baban newydd wrth wneud gweithgareddau bob dydd helpu gyda'u datblygiad. Caiff rhieni eu hannog i **edrych** ar yr hyn y mae eu baban yn canolbwyntio arno a sut mae'n ymateb, **dweud** beth mae'n ei wneud a chopïo'r synau y mae eu babi'n eu gwneud, **canu** ei hoff gân neu **chwarae** gemau syml a gweld beth mae eu babi'n ei fwynhau. Mae teuluoedd sy'n treialu awgrymiadau a gweithgareddau'r ymgyrch yn dweud eu bod wedi sylwi ar newid yn natblygiad eu baban a'i fod wedi rhoi hyder iddynt fel rhieni. Meddai Emma Motherwell, rheolwr ymgyrchoedd lleol NSPCC Cymru:

"Rydym yn gobeithio y bydd ein hymgyrch Edrych, Dweud, Canu, Chwarae yn helpu rhieni i feithrin cyswllt gyda'u plant a rhoi tawelwch meddwl iddynt drwy rannu'r wyddoniaeth y tu ôl i hyn. Mae'r awgrymiadau'n cyfeirio at yr hwyl y gallwch ei gael gyda'r hyn sydd o gwmpas eich tŷ yn hytrach na gyda theganau neu declynnau drud; neu ychwanegu at y rhestr o bethau y mae'n rhaid i rieni eu gwneud eisoes."

Mae rhai ymarferwyr blynyddoedd cynnar ledled Caerdydd a'r Fro wedi bod yn treialu'r cynllun gyda theuluoedd y maent yn gweithio gyda nhw. Gall rhieni gofrestru i gael awgrymiadau wythnosol drwy wefan yr NSPCC. Bydd pob un yn cynnwys awgrym hwyliog, sy'n briodol i'w hoedran, y gallant ei gynnwys yn hawdd fel rhan o'u trefn ddyddiol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â swyddfa'r wasg NSPCC Cymru/Wales ar 029 2010 8159 neu e-bostiwch walespressoffice@nspcc.org.uk.

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

1. Gan fod bron ddeufis wedi mynd heibio ers dechrau'r flwyddyn dreth newydd, rydym wedi dechrau gweld patrymau yn y cyfrifon sy'n cael eu paratoi. Y ddau brif thema hyd yn hyn yw:

i) ***Incwm grant:*** mae mwyafrif helaeth o grantiau yn drethadwy, felly cofiwch gynnwys manylion yr holl incwm grant a dderbyniwyd yn eich cyfrifon.

ii) ***Lwfans am weithio o adref:*** os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, gwnewch yn siŵr eich bod wedi hawlio'r lwfans am weithio o adref ar gyfer 2020-2021.

2. Gyda cyfyngiadau teithio yn codi, mae nifer o weithwyr llawrydd yn ail-ddechrau teithio i'r Undeb Ewropeaidd (UE) i weithio. Ers Brexit, mae angen i weithwyr llawrydd sy'n gweithio'n rheolaidd yn yr UE gwblhau cryn dipyn o waith papur er mwyn cael caniatâd i weithio. Mae angen ardystio llawer o'r dogfennau hyn. Cysylltwch â ni os oes angen ardystiad o ddogfennau arnoch chi ar gyfer y ceisiadau yma.

3. Yn ddiweddar, gwnaethom gynghori unigolyn oedd yn ennill symiau bach o arian o hysbysebion a oedd yn cael eu rhoi ar eu fideos YouTube. Gan fod Google yn berchen ar YouTube, roedd yn rhaid anfon datganiadau i'r awdurdodau treth yn yr Unol Daleithiau i sicrhau mai dim ond unwaith (yn y DU) y trethwyd yr incwm yma.

4. Mae sgamiau diweddar yn cynnwys galwadau lle mae pobl yn honni eu bod o'r Swyddfa Dreth. Maent yn hysbysu unigolion y byddant yn cael eu harestio o achos ffurflen dreth hwyr oni bai eu bod yn gwneud taliad yn syth iddynt. Byddwch yn wyliadwrus o'r sgamiau ymosodol yma.

***Cwestiynau Huw ac Aled:*** Rwyf wedi ysgaru ddwywaith gyda 2 o blant sydd wedi tyfu i fyny. Dwi wedi dod o hyd i gariad eto ac yn bwriadu ailbriodi yn ddiweddarach eleni. Allwch chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth ar gytundebau cyn-priodasol?

Defnyddir y cytundebau yma i ddiogelu rhywfaint ar sefyllfa ariannol teulu presennol yr unigolyn. Dylech chi'ch dau gael cyngor cyfreithiol annibynnol gan gyfreithwyr ar wahân. Rhaid ymrwymo i'r cytundeb o'ch gwirfodd ac mae'n rhaid bod y ddau ohonoch yn ymwybodol o ba asedau rydych chi'ch dau yn eu perchen. Gall hyn fod yn bwnc anodd i'w drafod oherwydd yn ei hanfod, rydych yn cynllunio ar gyfer chwalu'r briodas newydd. Mae cyngor cyfreithiol cadarn yn hanfodol. Pob dymuniad da a tri chynnig i Gymro!

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni drwy:*
*www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth ein tymor i ben ar Fai 24 gyda'n Cyfarfod Busnes Blynyddol, y cyfarfod hwn, fel pob un ers Chwefror 2020, yn rhithiol. Oherwydd y trafferthion a ddaeth arnom o Fis Mawrth 2020 bu rhaid i ni fod yn ystwyth ein trefniadau, e.e. ni chafwyd Cyfarfod Busnes y llynedd. O'r herwydd buom ar Fai 24ain eleni yn bwrw golwg yn ôl dros ddwy flynedd o gyfarfodydd, fel a ganlyn, 16/9/19 Iwan Griffiths (Tonnau Disgyrchiant), 21/10/19 Zoë Morris (Galwadau Meddyg Teulu), 18/11/19 Hywel Jones (Ystadegau Meddygol), 20/1/20 Cystadleuaeth Disgyblion Chweched Dosbarth, 17/2/20, Keith Jones (Newid Hinsawdd); 16/3/20 a 20/4/20 CANSLWYD Y DDAU GYFARFOD oherwydd gwaharddiadau cymdeithasol.

Penderfynwyd mentro gyda threfniant Zoom ar 19/10/20 gyda Gareth Ffowc Roberts yn trafod ei lyfr *Cyfri'n Cewri (Mathemategwyr Cymru)*, ar 16/11/20 gyda Zoë Morris yn sôn am fywyd meddyg teulu wrth wynebu Covid-19, ar 15/2/21 Guto Owen yn rhannu ystyriaethau parthed lle hydrogen mewn cynlluniau egni, ar 15/3/21 Arwyn Tomos Jones yn trafod ymchwil ar Covid-19, ar 19/4/21 Huw Morgan yn amlinellu agweddau ar wyddoniaeth Yr Haul.

Diolchwn yn fawr i'n gwesteion am eu parodrwydd hynaws i fentro gyda ni i fyd Zoom. Profwyd dwy fantais yn sydyn, (a) bod modd cael cyfranwyr o bell, (b) bod modd mwynhau cwmni cyfeillion Cymdeithas Wyddonol Gwynedd.

Yn ôl pob tebyg byddwn yn dal gyda threfniant Zoom am weddill 2021, gan obeithio datblygu'r manteision a brofwyd. Mawr iawn yw ein diolch i Cerian Angharad am fod yn 'dywysydd' am bob cyfarfod Zoom, heblaw am un pan ysgwyddwyd y baich gan Rhys. Rydym yn hynod ffodus i gael gwasanaeth dau gyd-ysgrifennydd mor ymroddgar.

Cawsom wybod bod ein trysorydd Huw Roberts wedi mynegi ei awydd i ildio'r swydd. Diolchwyd yn frwd iddo am ei wasanaeth trylwyr dros gyfnod helaeth. Hyfrydwch pur oedd nodi bod aelod ffyddlon arall, Sian Griffiths, yn barod i ddilyn Huw.

*Neville Evans*

# Bwytai Merch y Ddinas

## *Glam Taf!*



Lowri Haf Cooke

Mae'n gyfnod digon rhyfedd o'r pandemig rhyngwladol ar hyn o bryd. Ehangu wna'n gorwelion wrth i'r cyfyngiadau lacio, ond digon araf ydw i i gyffroi a dweud y gwir wrth i gymdeithas 'ail-agor' yn raddol. Wedi bron i chwe mis ers i fwytai gau eu drysau, dydw i ddim ar frys mawr i ddychwelyd dan-do i leoliadau llawn twrw a phob math o reolau.

I rai, dihangfa lwyr sy'n mynd â'u bryd, neu restr o gynlluniau i lenwi'r dyddiadur. Ond os ydw i wedi dysgu unrhywbeth o'r flwyddyn ddwetha, yna gwneud y pethau bychain sydd orau. Y pethau bach hynny sy'n cynnig perspectif, a pheidio â disgwyl gormod rhag cael fy siomi. Yn bur annisgwyl felly ges i noson fendigedig, yma, ar fy stepen drws yng Nghaerdydd. Daeth yr elfennau at ei gilydd – tywydd, lleoliad a chwmni hyfryd – diolch i drefniaint munud olaf ges i siom ar yr ochr orau. Beth well, yn wir, mewn pandemig? Mae weithie'n talu i fod yn hyblyg...

Mae'n bosib i chi eisioes brofi bwyty Nook ym Mharc Fictoria – fe agorodd yn wreiddiol chwe mis cyn y pandemig, ym Medi 2019, felly ni fu'r drysau ar agor am sbel cyn gorfod cau drachefn. Ond enillodd barch beirniaid Michelin, am safon y bwyd a gwin. Mae pwyslais y fwydlen ar winoedd naturiol, gyda llysiau'n ganolog i'r seigiau (er fod cig a physgod ar gynnig hefyd). Y bwriad yw ail-agor y bwyty cymunedol ar y 9ed o Fehefin, os hoffech archebu bwrdd yn Nhreganna.




Ond am rai wythnosau ym mis Mai, ehangodd y perchnogion Phil a Deb Lewis (o gwmni pitsa Dusty Knuckle, a bwyty Dark – Cafe Minuet gynt - cyn y pandemig hefyd) eu gweledigaeth, gan 'symud' y bwyty i babell dros-dro ar lannau'r afon Taf. Nook By The River oedd enw'r bwyty 'pop-up' hwnnw, a leolwyd lathenni'n unig o glwb rhwyfo Llandaf.

O ran fy mhrofiad innau, ges i drafferth archebu bwrdd yn un o fwytai canolog Caerdydd, pan gododd cyfle i feddwl yn wahanol. A dweud y gwir, do'n i ddim awydd heidio i ganol y ddinas bryd hynny, felly denwyd fy sylw gan hysbysiad Instagram gan y bwyty. Gyda Mai ymysg y misoedd gwlypaf ers cryn dipyn, bu i sawl un ohirio eu trefniant yn Nook By the River – sy'n gyffredin iawn yn niwylliant byd bwytai, beth bynnag. Cysylltais yn syth â nhw a bachais fwrdd cynnar ar nos Sadwrn, am eisteddiad awr a hanner o hyd. Diolch byth i mi wneud, oherwydd tywynnodd yr haul ar brofiad dinesig gwahanol iawn i'r arfer.

Ges i gwmni fy nghyfaill mawr Esyllt, hen ffrind o Ysgol Glantaf, a phrofiad hynod oedd ail-droedio llwybrau'r cof, a'r llwybr rhedeg traws-gwlad! Roedd yr olygfa o lannau'r Taf fel darlun gan Monet, a chyfuniad cynhwysion y fwydlen yr un mor gelfydd. Madarch enoki wedi'i ffrio mewn cytew a saws cyri, a brocoli ffres ar wely o ricotta cnau cashiw. Betys melys amryliw wedi'u cydbwyso â surni caws gafr, a thatws newydd gyda nionon crisb a dail marchysgall (basil). Mam bach, mor braf oedd profi dawns o flasau tymhorol – a gwell byth, rhywun arall i goginio (a golchi'r llestri).

Yr uchafbwynt i mi oedd y macrell, marchruddugl a thomato – chwistrelliad i'r dafod aeth fyny'r trwyn a syth i'r meddwl. Yn wir, a ninnau'n gwledda yn yr awyr iach ar lannau'r afon Taf, roedd yn wefr i'r holl synhwyrau. Ond i Esyllt, y pwdin hawliodd y sylw a gwobr 'saig orau'r noson'; mango, mascarpone, mêl sur a granola. 'Ga i dri arall plis' meddai hi wrth Phil, y Cymro Cymraeg o Lanymddyfri, a wenodd wrth iddo glirio'r platiau pwdin. I orffen y noson, glasied o Limoncello gan gwmni Jin Treganna (sgwennais am y cwmni hwnnw yn y golofn hon ym mis Ebrill). Wedi orig mor ddifyr, gallech chi gadw Amalfi, a holl lemwnau yr Eidal. Roedd yn werth y byd cael golwg wahanol ar Gaerdydd a chwa o awyr iach mewn pandemig... dim ond am ennyd.

Nook, 587 Cowbridge Road East, Treganna CF5 1BE; 02921 153274 / nookcardiff@outlook.com

*Canllaw Bach Caerdydd* / *Bwytai Cymru* gan Lowri Haf Cooke, £9.99 yr un (Gomer)